

2018/19

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Gofalu amdanoch chi a'ch dyfodol...



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

Beth fydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ei ddweud wrthyh chi?

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n disgrifio ein sefydliad, y gwasanaethau a'r gofal a ddarperir gennym i gynllunio, cyflenwi a gwella gofal iechyd i chi. Mae'n cynnig gwybodaeth am sut roedden ni'n perfformio yn 2018/19, yr hyn a gyflawnwyd, sut rydyn ni'n bwriadu gwella'r flwyddyn nesaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro pa mor bwysig yw i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich barn, i gyflenwi gwasanaethau sy'n cyflawni eich gofynion yn well, mor agos i'ch cartref ag sy'n bosibl.

Llunir ein blaenoriaeth gan ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n amlinellu ein hamcanion a'n cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Gallwch ddarllen y cynllun a darganfod mwy am ein Bwrdd Iechyd ar:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/88054/>

Mae ein Hadroddiad Blynyddol 2018/19 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** (dogfen arwahân) sy'n rhoi manylion ein perfformiad yn erbyn ein targedau a'r camau a fwriedir eu cymryd i gynnal neu i wella ein perfformiad. Gellir gweld hwn yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** (dogfen arwahân) sy'n rhoi manylion ein gofynion atebolrwydd allweddol ac sy'n rhoi gwybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli'n llwyr ein hadnoddau, canfod ac ymateb i'n peryglon a chydymffurfio â'n trefniadau llywodraethu ein hunain <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>
- Ein **Datganiad Ariannol. Cyfrifon Blynyddol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol** (dogfennau arwahân) sy'n rhoi manylion sut rydyn ni wedi gwario ein harian ac wedi cyflawni ein goblygiadau. Gellir gweld y rhain yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/tudalen/62034>
- Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynhyrchu **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (dogfen arwahân) sy'n rhoi manylion am gamau a gymerwyd i wella ansawdd ein gwasanaethau. Mae ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y Pencadlys, Ysbyty Sant Cadog

Ffordd y Lodge, Caerllion, Casnewydd, NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydym yn hynod o falch i allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2018/19.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd sylweddol wrth weithredu ein Rhaglen Dyfodol Clinigol. Thema'r adroddiad blynyddol hwn yw Gofalu amdanoch Chi a'ch Dyfodol. Rydyn ni'n adeiladu ysbyty newydd sbon yng Nghwmbran (Ysbyty Athrofaol y Grange) ond mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn llawer ehangach nag un ysbyty newydd. Rydym yn ail-lunio ein gwasanaethau GIG lleol i'w gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol ac mae hyn yn cynnwys symud mwy o'n gwasanaethau i mewn i'n cymunedau ac yn nes at y bobl hynny sydd angen eu defnyddio. Mae hyn yn llwyr gefnogi gobeithion Llywodraeth Cymru i gael 'Cymru Iachach'. Hefyd, rydym yn parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Wrth i chi ddarllen drwy'r adroddiad hwn, gobeithio y byddwch chi'n deall y gwaith rydyn ni wedi'i gyflawni fel sefydliad ac mewn partneriaeth a'r cynnydd a wnaed.

Wrth i gyfleoedd a thechnolegau newydd ymddangos, rhaid i ni addasu a gwella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i sicrhau bod y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu'n cael y gofal o'r safon uchaf posibl. Nid yw aros yn llonydd yn opsiwn ac nid yw erioed wedi bod felly. Mae gan y GIG y gallu i esblygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn gwneud y gorau o fewn ei allu i gyflawni gofynion pobl a darparu'r gofal gorau posibl. Mae ein Rhaglen Dyfodol Clinigol yn newid y modd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i ddarparu gofal rhagorol yn y lle cywir i bob claf dan ein gofal.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd gofal a diogelwch cleifion wrth annog ein cymunedau lleol i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain. Yn fwy na dim, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid, fel Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector drwy ein trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Mae hyn yn golygu bod gennym lawer mwy o effaith gyda'n gilydd, i wneud gwahaniaeth go iawn. Hefyd, mae ymdrech gyson i barhau i addasu a newid gwasanaethau i ymateb i wahanol ofynion a newidiadau technolegol.

Roedden ni'n falch bod ein Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd (IMTP) wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dangos ei hyder yn ein gallu i gyflenwi a datblygu ein gwasanaethau

dros y tair blynedd nesaf. Hefyd, llwyddwyd i gyflawni ein targed adennill costau ariannol statudol ar ein cyllideb o £1.2 biliwn. Mae hwn yn llwyddiant sylweddol yng ngoleuni'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG.

Mae ein staff yn dal i fod ein hased pennaf. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn dim ond oherwydd eu hymrwymiad a'u gwaith caled hwy i gyd a'r rhai sy'n gweithio gyda ni. Mae ein staff yn parhau i ymddangos ar restrau byr y gwobrau ac i gael eu cydnabod yn genedlaethol am y gwaith rhagorol y maen nhw'n ei wneud. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol gyda'n cymunedau lleol, cleifion, staff a phartneriaid er mwyn cynllunio a chyflenwi gwell gwasanaethau â'u lleisiau hwy'n glir yn ganolog i'r gwaith hwn.

Gwerthfawrogwn y gefnogaeth a'r adborth a dderbyniwn gan y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ac rydym yn awyddus i glywed gennych - gallwch gael hyd i ni ar Facebook, Twitter ac Instagram, neu gallwch ddod i un o'n digwyddiadau lleol neu ein cyfarfodydd Bwrdd rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd. Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy.

Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae ein Datganiad Ansawdd Blynyddol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn rhoi mwy o wybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed gennym mewn meysydd allweddol.

Gellir cael hyd i'r holl ddogfennau hyn ar ein gwefan:

www.aneurinbevanhb.wales.nhs.uk

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn a'i fod yn rhoi mewnlwg pellach i chi i'r gwaith a wnawn a'r cynnydd a wnaed fel sefydliad ac mewn partneriaeth gydag eraill yn ystod 2018/19.



Ann Lloyd CBE
(Cadeirydd)



Judith Paget CBE
(Prif Weithredwr)

Ein Sefydliad

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac enillodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Rydyn ni'n gwasanaethu poblogaeth o dros 639,000, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Gyda chyllideb o **£1.2biliwn**, rydyn ni'n cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a hefyd yn darparu rhai gwasanaethau i bobl De Powys.

Gallwch ddarganfod mwy am ein sefyllfa ariannol drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd a'r Cyfrifon Ariannol 2018/19 (dolen gyswllt isod):


<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/tudalen/62034/>



Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am yr holl wasanaethau a gofal sy'n cael eu darparu yn ein hardal. Yn 2018/19, cadeirydd y Bwrdd oedd Ann Lloyd a Judith Paget oedd yn darparu'r cyfeiriad gweithredol fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol.

Yn ystod 2018/19, roedden ni'n parhau i ddilyn ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau allweddol;

- Gwella iechyd y cyhoedd drwy weithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo ffordd o fyw iach a sicrhau bod mynediad i wasanaethau ataliol, yn arbennig yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf.
- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf.
- Sicrhau diogelwch, rhagoriaeth a safon ym mhob un o'n gwasanaethau bob amser.
- Ymddiried yn ein staff a'u cefnogi i wneud y penderfyniadau cywir ac i wella gofal.
- Defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon i sicrhau ein bod yn darparu gofal iechyd o safon uchel a gwerth am arian.




Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn dull claf-ganolog, diogel, agored a doeth. Y Bwrdd sy'n gosod yr amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar weithredu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheolaeth briodol yn ei lle ac yn gweithio'n gywir ar draws y sefydliad.

Mae ystod eang o Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd. O dan gadeiryddiaeth Aelodau Annibynnol y Bwrdd, maen nhw'n darparu craffu, yn cynnal trafodaethau datblygiad, yn asesu prif risgiau ac yn monitro'r perfformiad yn erbyn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Gallwch weld mwy o wybodaeth am ein sefydliad, ein pwyllgorau a'n strwythurau yn ein Hadroddiad Atebolrwydd a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol (dolen isod):

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>



Gwerthoedd a Chenhadaeth ein Bwrdd Iechyd

Fel Bwrdd Iechyd, anelwn at ragoriaeth ym mhob peth rydyn ni'n ei wneud ac anogwn yn weithredol ddiwylliant o ofal a thosturi, parch, gonestrwydd a gwaith tîm.

Mae hyn yn cael ei gydbwyso drwy asesu a herio gwasanaethau'n barhaus i anelu at wella i gyfateb a, lle mae'n bosibl, wella ar safonau cenedlaethol, gan ddysgu o lwyddiant a nodi lle gellir gwneud gwelliannau.

Caiff yr uchelgais hwn hefyd ei yrru gan ymrwymiad i gydweithio ac ymgysylltu â chleifion, cymunedau, staff, sefydliadau partner a llywodraeth.

Credwn mewn rhoi pobl yn gyntaf, staff yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddiogelu cleifion, meithrin angerdd cryf dros wella wrth gyflenwi gwasanaethau a sicrhau bod hyrwyddo balchder mewn cyflenwi gwasanaethau'n hybu gwelliannau mewn profiadau cleifion.



Bu ein gwerthoedd a'n cynlluniau bob amser â ffocws cryf ar gyflenwi gwasanaethau diogel o'r ansawdd gorau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r galwadau ar ein gwasanaethau iechyd gynyddu wrth i'r boblogaeth dyfu a phobl yn byw'n hwy (gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod angen mynediad i wasanaethau iechyd).

Rydym yn benderfynol bod ein gwerthoedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diweddar yn cael eu gwireddu a'u cynnal. Rydym yn agored ac yn dryloyw gyda'n cleifion a'r cyhoedd a wasanaethir gennym. Rydym hefyd am wrando ar ac ymgysylltu â'n cymunedau, cleifion, staff a phartneriaid wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau o'r ansawdd gorau.

Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth am ein cyfathrebu a'n hymgysylltu gyda'r cyhoedd ar Dudalen 42 yr adroddiad hwn.



Rheoli Risg

Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd iechyd yn newid yn gyson. Gall rhai risgiau gael effaith ar gyflawni ein hamcanion ac mae'n rhaid i ni gymryd camau i'w lliniaru hwy'n effeithlon.

Mae rheoli'n effeithlon y risgiau sy'n affeithio ar ein gwasanaethau clinigol yn helpu i sicrhau ein bod yn darparu gofal iechyd diogel o'r safon uchaf i bobl leol a'n bod yn darparu amgylchedd gwaith cefnogol i'n staff.

Yn ystod 2018/19, roeddem yn llwyddo i sicrhau balans ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn rheoli risg drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd, Datganiad Llywodraethu Blyneddol a'n Cyfrifon Ariannol 2018/19 drwy ddilyn y ddolen isod:
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Ein Cynllun

Bob blwyddyn, disgwylir i ni ddiweddarau ein **IMTP (Cynllun Tymor Canolig Integredig) tair blynedd**, sy'n amlinellu sut byddwn ni'n atgyfnerthu, moderneiddio a datblygu ein gwasanaethau i gyflawni gofynion iechyd a chynnig gwell gofal i bobl ein cymunedau. Rhaid gwneud hyn o fewn y gyllideb a ddyrennir i ni gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ein IMTP tair blynedd gyntaf ym mis Mehefin 2015 ac mae cynlluniau dilynol wedi adeiladu ar y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o'n cynlluniau a gymeradwy-wyd dros y pedair blynedd ddiwethaf.



Gallwch ddarllen y cynllun llawn ar ein gwefan (dolen isod):
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/88054>

Rydym yn gweithio dros nifer o gymunedau, systemau a gwasanaethau; ein huchelgais yw - **gwella iechyd a lles y boblogaeth rydyn ni'n ei gwasanaethu a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu'r mwyafrif o ofal yn nes i'r cartrefi.** Bydd hyn yn llwyddo os bydd yn adlewyrchu gofynion ein cleifion a'i fod wedi'i alinio i gynlluniau a blaenoriaethau ein partneriaid. Croesaw-wn ymddeddfiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hwn eto'n gam positif tuag at integreiddio agenda a chynlluniau pob sefydliad y sector cyhoeddus i gyflawni newid positif i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae ein cynllun yn parhau i gynnwys camau nesaf ar gyfer ein Rhaglen Dyfodol Clinigol. Bydd Ysbyty Athrofaol y Grange, canolfan gofal arbenigol a chritigol, yn atgyfnerthu ein gwasanaethau aciwt ac mae'n elfen graidd o'r system gofal iechyd diogel a chynaliadwy y bwriadwn ei darparu ar gyfer y 600,000 a mwy o bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Rydyn ni, fel pob Bwrdd Iechyd ar draws Cymru, yn profi heriau digymar ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain ar ffurf poblogaeth yn heneiddio gan gynyddu'r nifer o bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd tymor hir ynghyd â disgwyliadau cleifion yn codi, adnoddau cyfyngedig a heriau gweithlu.

Ar wahân i'r heriau hyn, rydym wedi ymrwymo i drin pob claf dan ein gofal gyda pharch, tosturi a charedigrwydd gan gynnal eu hurddas bob amser.

Rydym yn hyderus bod ein cynllun yn rhoi ein Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gadarn i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ddiogel, effeithlon a threfnus i gyflawni'r deilliannau gorau posibl i'r rhai sy'n eu defnyddio.

Ein Huchelgais Newid

Yn ein hardal ni, mae pobl yn gofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a'u teuluoedd. Pan fyddan nhw angen help, mae hwn ar gael yn hawdd gartref ac yn eu cymuned ac yn cael ei gefnogi drwy dechnoleg arloesol.

Rydyn ni'n gweithio mewn system fodern sydd, gyda phartneriaid, yn cyflawni deilliannau o'r safon gorau, drwy ddefnyddio arfer gorau yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae ein gwasanaethau'n darparu gofal holl holistaidd o gartref i gartref ac yn datblygu'n barhaol er mwyn bod ar y brig.

Cyflenwir gofal tosturiol gan dimau creadigol talentog rydyn ni'n ymddiried ynddyn nhw ac yn eu parchu i roi gofynion ein cleifion yn ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud.

Dywed ein staff wrthym eu bod yn teimlo bod ganddyn nhw'r pŵer a'r gallu a'u bod yn cael eu harfogi i wneud gwahaniaeth i fywydau a deilliannau pobl. Teimla ein timau bod pobl yn gwrando arnyn nhw, yn ymddiried ynddyn nhw a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydyn ni'n sefydliad deinamig sy'n gofalu, dysgu a gwella gyda'n gilydd.

Byddwn yn cyflawni ein huchelgais drwy waith arloesol a thrwy weithio mewn partneriaeth gyda'n staff, partneriaid a'n cymunedau lleol. Ar yr un pryd, byddwn yn cyflawni newid sy'n ein helpu i gyflawni'n gyson ein safonau ansawdd a pherfformiad o fewn amlen ariannol sy'n cynrychioli gwerth gorau i'r pwrw cyhoeddus.

- Y gofal gorau
- Yn y lle gorau
- Ar yr amser gorau

DYFODOL
CLINIGOL

Cyflenwi Gofal yn Nes Gartref



Dyfodol Clinigol
Clinical Futures



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Symud ymlaen

Mae uchelgais y Bwrdd Iechyd i gyflenwi gwell iechyd a gwasanaethau iechyd i'n poblogaeth leol wedi'i adlewyrchu yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 - 2020/21, a gymeradwy-wyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cydnabod y cyfleoedd, heriau sylweddol a'r risgiau rydyn ni'n eu hwynebu yn y dyfodol.

Byddwn yn monitro ac yn craffu'n fanwl wrth gyflawni ein cynlluniau gan sicrhau gwireddu buddion i'n cleifion a'n cymunedau.

Hefyd, rydyn ni wedi cynnal ystod o weithgareddau i ailgyflunio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflenwi gwell gwasanaethau i ateb gofynion cleifion. **Gallwch ddarllen am rai o'r gweithgareddau hyn yn adran nesaf yr adroddiad hwn 'Gofalu Amdanoch Chi'.**

Credwn fod tystiolaeth o welliant ar draws ystod o'n gwasanaethau. Er hynny, sylweddolwn fod her go iawn eto o'n blaen cyn cyflawni'r gofyn am wasanaethau yn arbennig gwasanaethau brys.

Gofalu Amdanoch Chi

Yn ystod 2018/19, gwelwyd nifer o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ein gwasanaethau. Caiff y gwelliannau hyn effaith uniongyrchol ar y safon uchel o ofal a ddarperir ar gyfer ein cleifion a'u teuluoedd.


Isod, gwelir rhai enghreifftiau o'r gwelliannau a wnaed gennym:



Ebrill 2018

Cynlluniau uned radiotherapi a chanser ar gyfer Ysbyty Nevill Hall

Datgelwyd cynlluniau i ddatblygu uned radiotherapi loeren a chanolfan ganser leol yn Ysbyty Nevill Hall.



Clustnodwyd yr ysbyty fel y safle gorau ar gyfer uned radiotherapi loeren i ategu at y gwaith a wneir yng Nghanolfan Ganser Felindre Caerdydd gan gynyddu'r niferoedd a galluogi nifer o gleifion i dderbyn triniaeth yn nes i'w cartrefi.

Mae hwn yn gyfle unigryw i asesu a gwella'r modd y mae gwasanaethau canser yn cael eu cyflenwi i gleifion yn ardal y Bwrdd Iechyd ac ar draws ardal De Ddwyrain Cymru.

Mai 2018

Terfynu Parlys PJ

Bu nifer o wardiau mewn ysbytai ar draws y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Terfynu Parlys PJ' i annog pobl, (pan fydd hynny'n bosibl) i godi, gwisgo a bod yn actif, yn arbennig pan fyddan nhw mewn ysbyty.



Dangosodd astudiaethau y gall 10 niwrnod o orffwys mewn gwely arwain at 10% o golled yn y cyhyrau ac, i bobl 60 oed a mwy, gall gorffwys mewn gwely am 10 niwrnod gyfateb i heneiddio 10 mlynedd.

Roedd yr ymgyrch 70-diwrnod yn annog cleifion i godi, gwisgo a bod yn actif. Mae hyn yn eu helpu i leihau'r risg o wanhau, i gynnal cryfder y cyhyrau, gwella'r hwyl, gwella'r archwaeth am fwyd, gwella cwsgr, lleihau'r risg o fod yn rhwym a hefyd syrthio. Hyd yn oed ar ôl diwedd yr ymgyrch arbennig, mae'r egwyddorion yn parhau i gael eu gweithredu ar draws wardiau ein hysbytai.

Gwobr am Rhagoriaeth

Enillodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Wobr Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Clinigol Myeloma DU (Gwobr CSEP Myeloma DU) gan Myeloma DU.

Canser y gwaed yw Myeloma sy'n codi o gelloedd plasma. Roedd y wobwr yn cydnabod ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu triniaeth arobryn i gleifion myeloma, a helpu i wneud gwelliannau yn y gymuned gofal iechyd ehangach.

Mae derbyn Gwobr CSEP Myeloma DU yn gamp sylweddol ac mae'n dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu triniaeth a gofal rhagorol gan fod y wobwr CSEP Myeloma DU yn cydnabod safon aur gofal myeloma.

Mehefin 2018

Mynedfeydd Ysbytai'n cael wyneb newydd

Ail-ddatblygwyd mynedfeydd blaen Ysbytai Brenhinol Gwent a Nevill Hall i'w gwneud yn fwy croesawgar i gleifion ac ymwelwyr.



Dechreuwyd ar raglen waith i greu amgylchedd croesawgar ac apelgar i'r llygaid ym mhhrif fynedfeydd dau ysbyty.

Ynghyd â rhoi wyneb newydd i'r mynedfeydd blaen, gwnaed gwaith hefyd i godio lobiau lifftiau mewn

Iliwiau pob llawr Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n berthynol i fap ac arwyddion dangos y ffordd. Yn Ysbyty Nevill Hall, gosodwyd ffilm allanol ar ffenestri mawr i wneud yr adeilad yn fwy deniadol.

Cyn i'r gwaith gael ei gymeradwyo, ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd, y staff a gwirfoddolwyr - ynghyd â rhoi cyflwyniadau i'r Cyngor Iechyd Cymuned a Fforwm Partneriaeth Undebau Ilafur yn trafod cynlluniau'r adnewyddiadau.



Mae'r cynlluniau'n wahanol i adlewyrchu natur annibynnol y ddau ysbyty. Yn Ysbyty Nevill Hall, mae graffigau'r fynedfa'n creu teimlad tawel, llonydd i'r brif fynedfa a choridor yr Adran Cleifion Allanol drwy ddod

â thirluniau'r Fenni i mewn i'r ysbyty a chreu ffactor waw i waliau allanol yr adeilad. I adlewyrchu awyrgylch ysbyty dinas yn Ysbyty Brenhinol Gwent, mae'r cynlluniau'n creu amgylchedd prysurach, cyflymach gyda mynedfa hwyliog a lliwgar ond addysgol. Mae

inffograffigau'n bywiogi corridor y fynedfa ac yn arwain at ddesg derbynfa newydd ar Lefel O tra bod llythrennu wedi'u goleuo ar y canopi yn rhoi teimlad allanol i'r brif fynedfa y bydd pobl yn ei gydnabod a'i gofio.



Cynhadledd yn Dathlu Gwaith Pontio'r Cenedlaethau

'Creu Pontydd ar draws y Cenedlaethau' oedd teitl Cynhadledd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.



Bu'r gynhadledd yn llwyddiant mawr gyda nifer o staff o'r Bwrdd Iechyd ac asiantaethau partneriaeth yn mynychu i ddysgu a rhannu'r syniad o annog plant ysgol i geisio gyrfaedd yn y proffesiwn gofal.



Gorffennaf 2018

Dathliadau NHS70 yng nghartref y GIG

Cynhaliodd Ysbyty Aneurin Bevan Glyn Ebwy (yr unig ysbyty GIG yn y DU sydd wedi'i enwi ar ôl sylfaenydd y GIG) Barti Gardd i ddathlu pen blwydd y GIG ar 5 Gorffennaf .

Ymwelodd Tywysog Cymru, Ei Fawrhydi'r Tywysog Siarl â'r parti a bu'n sgwrsio â'r cleifion, staff, gwirfoddolwyr a phlant ysgol leol. Roedd ystod o stondinau a chyflwyniadau i ddangos gwaith y Bwrdd



Iechyd yn help i ddod â gardd yr ysbyty'n fyw, ynghyd â baner NHS70, fflagiau a balwnau. Treuliodd ystod o gyfryngau lleol a chenedlaethol y diwrnod yn yr ysbyty gan gyfweld â chleifion a staff i nodi'r dathliadau gyda Wales Today'r BBC, Newyddion a rhaglen 'Drive Time' Radio Wales yn darlledu'n fyw o'r ysbyty.

Roedd gweithgareddau eraill o fewn y Bwrdd Iechyd i nodi NHS70 yn cynnwys Ffair i'r Teulu yn Ysbyty Ystrad Fawr, perfformiadau rhyngweithiol Theatr Cenedlaethol Cymru a gomisiynwyd yn arbennig yn Ysbyty Brenhinol Gwent a chyfranogiad staff mewn fideo 'lip synching' gan y BBC i gân Jess Glynne 'Hold my Hand'. Roedd yr Adran Arlwyio hefyd yn creu bwydlenni dathliadau pen blwydd gan gynnig hoff brydau oedd yn cael eu gweini ym 1948.

Trefnwyd llu o ddigwyddiadau eraill gan staff ar draws y Bwrdd Iechyd a gwelwyd hwy mewn calendar ar-lein ac ar sianeli cyfathrebu amrywiol y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn denu llawer iawn o sylw'r cyfryngau cymdeithasol.




'To Provide All People' yn derbyn clod cenedlaethol i'r Bwrdd Iechyd

Roedd staff Ysbyty Nevill Hall a'i staff yn chwarae rôl allweddol mewn darn o farddoniaeth a drama BBC a ysgrifennwyd i nodi pen blwydd y GIG yn 70 oed.

Mae 'To Provide All People' a ysgrifennwyd gan fardd lleol Owen Sheers, yn siartio map emosiynol ac athronyddol yr hyn sy'n diffinio'r GIG a'r profiadau personol sy'n greiddiol i'r gwasanaeth: o gleifion i lawfeddygon, porthorion i fydwagedd.

Mae wedi'i seilio ar feddyliau a phrofiadau tua 70 o staff Ysbyty Nevill Hall ac ar draws y Bwrdd Iechyd a gafodd eu cyfweld gan Mr Sheers.



Ffilmwyd y ffilm awr o hyd mewn amrywiol adrannau o fewn Nevill Hall a chafodd nifer o staff eu hunain yn actorion ychwanegol ochr yn ochr â'r sêr oedd yn cynnwys Michael Sheen, Sian Phillips, Eve Myles, Suzanne Packer, Martin Freeman a Michelle Collins.

Dangoswyd y ffilm i staff Ysbyty Nevill Hall cyn iddi ymddangos ar y teledu fel diolch am eu holl waith. Mae gan yr ysbyty le arbennig yng nghalon Owen Sheers fel ei ysbyty lleol. Bu farw ei dad-cu a'i fam-gu yma ac yma y ganed ei ail ferch.

Dywedodd: "Yr unig reswm bod ysgrifennu 'To Provide All People' wedi bod yn bosibl oedd oherwydd y sgysiau a gefais gyda'r staff yma. Hoffwn hefyd ddiolch i'r ysbyty a'i staff am ganiatáu i ni ffilmio yma. Mae'n rhoi elfen arbennig ychwanegol i'r ddrama."

Cafodd y darn barddoniaeth a'r ffilm eu cydnabod ar y cyfryngau a chanmoliaeth feirniadol eang ar draws y DU.



Mae mwy o wybodaeth am 'To Provide All People' ar gael ar BBC iPlayer ar <https://www.bbc.co.uk/programmes/b0b7x2nt>

Te Prynhawn Gwirfoddolwyr

Croesawodd y Bwrdd Iechyd tua 100 o'n gwirfoddolwyr gwych i De Prynhawn Blynnyddol y Gwirfoddolwyr.

Trefnwyd yr achlysur fel arwydd o werthfawrogiad y Bwrdd Iechyd, ein staff, cleifion, teuluoedd a gofalwyr i'r holl wirfoddolwyr. Roedd yr achlysur yn dathlu cyfraniad gwerthfawr y gwirfoddolwyr bob dydd o'r flwyddyn.



Awst 2018

Rhybudd Newydd gan y Gwasanaeth

Lansiodd ein Gwasanaethau Therapi wasanaeth anfon neges destun i atgoffa cleifion am eu hapwyntiadau clinig.



Anfonir dwy neges gan ein gwasanaeth neges destun i atgoffa cleifion am eu hapwyntiad nesaf. Mae'r Gwasanaethau Therapi sy'n elwa o'r negeseuon atgoffa hyn yn cynnwys Rheoli Pwysau Oedolion, Podiatreg, Orthoteg, Therapi Iaith a Lleferydd, Dieteteg, Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol.

Medi 2018

Mae gwaith briw pwysu'n dathlu cynnydd

Cyfarfu timau nyrsio o Ysbyty Brenhinol Gwent i adolygu cynnydd yn y rhaglen 'Lleddfu Pwysau' - gwaith i leihau pwysau briwiau ein cleifion.

Datblygwyd hon gan dîm Gwelliant Parhaus (Abaci) Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac ystyriwyd bod y gwaith hwn mor llwyddiannus fel bod y rhaglen wedi'i hymestyn i wardiau yn Ysbyty Nevill Hall yn Y Fenni. Yn yr adolygiad ym mis Medi, canmolodd Martin Semple (Swyddog Nyrsio Profiadau Cleifion Llywodraeth Cymru) y tîmau am gyfuniad o ddefnyddio dulliau

gwella ansawdd wedi'u treialu a'u profi, arweinyddiaeth wych ac angerdd a brwdfrydedd go iawn.

Yn ystod y dydd, hysbyswyd y timau bod mwy na 50 o friwiau pwysau wedi'u hosgoi mewn chwe ward yn ystod naw mis cyntaf y grŵp oedd yn cydweithio (gostyngiad o tua 50% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd y grŵp yn dechrau) sy'n golygu gofal mwy diogel i gleifion. Mae hefyd yn golygu arbediad o £309,119 mewn costau yn ymwneud â gofalu am gleifion sy'n datblygu briwiau pwyso.



Meddygon Iau yn dathlu gwaith gwella

Yn niwrnod dathlu cyntaf y Bwrdd Iechyd, gwahoddwyd meddygon iau i roi cyflwyniadau i gydnabod eu prosiectau gwella.

Trefnwyd yr achlysur a'i hyrwyddo gan Dr Yvette Cloete, Arweinydd Cyfadran Lleol ar gyfer Hyfforddai a Chymorth i Hyfforddai. Y nod oedd arddangos gwaith a ysbrydolwyd gan Fforymau Meddygon Iau. Lluniwyd y fforymau, dan arweiniad hyfforddai, i roi gofod i rannu problemau a darganfod atebion.

Roedd 11 prosiect ar ystod eang o bynciau gan gynnwys datblygu bathodyn rhif ffôn, i ganiatau treulio amser a ddefnyddiwyd ynghynt yn chwilio am rifau ffôn i gynnig gofal, gwella profiadau cleifion sy'n aros am reoliaduron y galon a lleihau'r risg o gysylltu cleifion yn anfwriadol i aer meddygol yn lle ocsigen.

Hydref 2018



Gofal dilynol i gleifion yr Uned Gofal Dwys

Gall derbyn triniaeth mewn uned gofal critigol neu ofal dwys (ICU) gael effaith difrodus a thymor hir ar gleifion.

Nid yn unig mae profiad corfforol y rheswm dros iddyn nhw fod yn yr uned - salwch difrifol neu drawma - ond mae nifer o effeithiau seicolegol tymor hir sy'n parhau'n hir ar ôl i'r corff wella.



Un o'r pethau mwyaf ysgytwol yw diffyg cofio eu salwch neu eu triniaeth yn gyfan gwbl - a gall y twll du hwn achosi ystod o broblemau. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid dod i delerau â chanlyniadau'r salwch neu'r anaf hefyd. Ac eto, yn ddiweddar, rhyddhawyd cleifion o unedau Gofal Critigol â'u Meddyg Teulu'n gorfod gofalu amdanyn nhw wedyn neu glinig cleifion allanol lle nad oedd gan y staff fawr o wybodaeth ymarferol o fywyd mewn ICU.

Mae hyn i gyd wedi newid yn y Bwrdd Iechyd lle mae Rhaglen Dyfodol Clinigol yn datblygu gwasanaethau newydd ac yn cyflenwi eraill yn nes i gartrefi pobl. Mae ôl ofal i gleifion sydd wedi treulio amser yn ICU yn awr yn cael ei gynnig gan glinig dilynol Gofal Critigol arbenigwr sy'n cynnig ei wasanaethau aml-ddisgyblaeth unigryw mewn tri safle ar draws y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Nevill Hall; Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty'r Sir, Pontypŵl.

Dan arweiniad ymgynghorwyr ICU, mae'r tîm hefyd yn cynnwys staff nyrsio, seicolegydd clinigol a ffisiotherapydd.

Mae'n golygu y gall cleifion gael mynediad i'r ystod eang o wasanaethau clinigol mewn un apwyntiad - a gallan nhw drafod y materion y maen nhw'n eu hwynebu efallai gyda thîm sydd wir yn deall.

'Your Birth – Stories from midwifery led areas'

Enillodd llyfr a ysgrifennwyd gan Ymgynghorydd Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd Louise Taylor ac Emma Mills, Arweinydd Bydwreigiaeth Ymchwil Clinigol Wobr Arloesi mewn Bydwreigiaeth yng Ngŵyl Mamolaeth Cymru a'r De Orllewin.

Cafodd y llyfr 'Your Birth – Stories from midwifery led areas' ei lansio'n swyddogol yng



Nglanyrafon Casnewydd ac mae llawer iawn wedi dangos diddordeb mawr ynddo o brifysgolion ar draws y DU.

Mae holl elw'r llyfr yn mynd yn uniongyrchol at Wasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd ac mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi hyfforddiant a datblygiad bydwagedd.

Tachwedd 2018

Cymdeithion Meddygon cyntaf Cymru'n gweithio o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Roedd y Bwrdd Iechyd yn arwain y ffordd drwy gyflogi rhai o'r Cymdeithion Meddygon cyntaf yng Nghymru.

Roedd y tîm o saith ymhlith y cyntaf i raddio o gyrsiau ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor ac roedden nhw'n cael swyddi ar draws Gwent. Cyflwynwyd y rolau fel rhan o Raglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd sy'n newid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yng Ngwent.

Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd cyffredinol yw Cymdeithion Meddygon sy'n gweithio ochr yn ochr gyda meddygon fel rhan o'r tîm aml-ddisgyblaeth, yn y gymuned ac mewn ysbytai.



Mae cyflwyno Cymdeithion Meddygon yn ychwanegiad arall fydd yn caniatáu i feddygon ganolbwyntio ar eu hymdrechion lle mae eu gwir angen, tra bod y Cymdeithion Meddygon yn gofalu am archwiliadau corfforol; cofnodi hanes meddygol; gweld cleifion â chyflyrau cronig; datblygu cynlluniau triniaeth; dehongli astudiaethau diagnostig a darparu gwybodaeth hybu iechyd i gleifion, ymhlith nifer o ddyletswyddau eraill.

Bwrdd Iechyd yn croesawu £13.4m i ddatblygu modelau gofal newydd

Ymunodd y Bwrdd Iechyd ag Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a phartneriaid eraill i groesawu £13.4m o arian Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect i drawsnewid y modd y cyflenwir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent.

Bydd prosiect Gwent yn datblygu gwasanaethau newydd i ganolbwyntio ar hybu ac atal salwch ar lefel cymuned i leihau'r gwaith mewn ysbytai. Bydd

hefyd yn sicrhau gwell integreiddiad rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i sicrhau profiad di-dor i gleifion.

Arweiniwyd y prosiect gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent sy'n rheoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau gwasanaethau effeithlon a bod gofal a chymorth ar gael i gyflawni gofynion y boblogaeth ar eu gorau. Roedd yn derbyn cefnogaeth ariannol o gronfa £100m Llywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau newydd o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a all yn y pen draw gael eu mabwysiadu ar draws Cymru.

Roedd Vaughan Gething AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi hyn yn ystod ymweliad â Chanolfan Blant Serennu ym mis Tachwedd. Yno, gwelodd enghreifftiau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cyflenwi ochr yn ochr i gefnogi plant ag anghenion cymhleth.

Rhagfyr 2018

Disgyblion ysgol gynradd yn lansio llyfr gyda'r nod o ysbrydoli gofalwyr y dyfodol

Roedd disgyblion o ysgol gynradd yng Nghwmbrân yn helpu i gynhyrchu llyfr oedd â'r nod o ysbrydoli plant i fod yn weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Roedd Bwrdd Iechyd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a chwmni Cyhoeddi Petra gynhyrchu'r llyfr, *Billy the Superhero*.

Mae Billy yn fachgen ifanc sy'n hoff iawn o uwcharwyr ac mae'n cael ei ysbrydoli i fod yn feddyg ar ôl gweld y modd y mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn gofalu am ei fam-gu. Drwy stori Billy, mae'r llyfr yn cyflwyno'r pwnc iechyd a gofal cymdeithasol i blant gyda'r nod o danio diddordeb mewn gyrfa wobrwyl. Mae'r llyfr wedi a bydd yn parhau i fod ar gael i bob ysgol gynradd, llyfrgell a phractis MT yng Ngwent.

Datblygwyd y stori gan ddisgyblion blwyddyn 6 gyda chefnogaeth ysgrifennwr stori, Mike Church o gwmni cyhoeddi Petra.



Fel rhan o'r prosiect, roedd gweithwyr proffesiynol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol (nyrs, therapyddion galwedigaethol a gofalydd cartref) yn ymweld â'r disgyblion i drafod eu rolau a helpu i ysbrydoli'r plant a'r stori.

Cynhadledd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd



Roedd cannoedd o aelodau staff yn mynychu cynhadledd flynyddol Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSWs) ym mis Rhagfyr.

Yn y gynhadledd roedd HCSWs a staff eraill yn dod at ei gilydd i ddathlu rôl a chyfraniad y staff i waith y Bwrdd Iechyd.

Ionawr 2019

Roedd y Bwrdd Iechyd yn dweud iddo gael yr Ionawr prysuraf ar record

Y nifer o bobl a welwyd yn Unedau D&A a Mân Anafiadau'r Bwrdd Iechyd ar draws Gwent ym mis Ionawr 2019 oedd 13,824 – cynnydd o 12% ar bum mlynedd yn ôl.

Diolchodd Claire Birchall, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i staff y Bwrdd Iechyd am eu gwaith caled - a hefyd diolchodd i'n cleifion am eu hamynedd yn ystod cyfnodau prysur o'r fath.

Roedd camerâu newyddion ITV Cymru'n ymweld ag Ysbyty Brenhinol Gwent i siarad â staff a chleifion am bwysau'r gaeaf.



27 rheswm pam nad oes angen i chi fynd i weld eich Meddyg Teulu

Roedd y Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo'r Cynllun Mân Anhwylderau newydd drwy fideo a chyfres o negeseuon i'r cyhoedd.

Mae meddyginiaeth am ddim ar gyfer 27 o wahanol fân anhwylderau'n awr ar gael o fferyllfeydd y gymuned yng Ngwent. Mae hyn yn golygu nad oes

yn rhaid i gleifion aros am apwyntiad MT i gael presgripsiwn. Cyngorwyd aelodau'r cyhoedd y gallan nhw ymweld â'r fferyllfa i gael cyngor a thriniaeth am ddim. Gellir eu darparu yn y fan a'r lle.

Mae gan y mwyafrif o fferyllfeydd ystafelloedd ymgynghori preifat lle na allwch gael eich clywed.

Mae'r gwasanaeth hwn yn un gwyb yn lle cael apwyntiad MT a bydd yn helpu i reoli'r galw am wasanaethau iechyd lleol yn ardal y Bwrdd Iechyd.

Diwrnod Gyrfaoedd Meddygol ar gyfer Chweched Dosbarth

Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd Ddiwrnod Gyrfaoedd yng Ngwent ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth oedd â diddordeb mewn gyrfa mewn meddygaeth.

Derbyniodd y myfyrwyr oedd yn mynychu wybodaeth a chanllawiau am y llwybr i yrfa mewn meddygaeth.

Roedd nifer o weithwyr proffesiynol meddygol wrth law i siarad â'r myfyrwyr i sgwrsio gyda nhw am eu profiadau eu hunain a gwahanol agweddau eu swyddi.

Chwefror 2019

Arwr Cwpan FA Newport County yn diolch i staff ar ôl geni eu gefeilliaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent

Diolchodd Joe Day, golgeidwad Newport County, i staff yr adran famolaeth ar ôl iddo orfod rhuthro i Ysbyty Brenhinol Gwent yn union ar ôl ennill 2-0 yn y Cwpan FA yn erbyn Middlesborough FC i gyfarfod â'i ddwy ferch fach a anwyd yn ystod y gêm.



Diolchodd Joe, a welwyd ar gamerâu teledu'n rhedeg o'r maes adeg y chwiban olaf, i'r staff yn ysbyty Brenhinol Gwent a dywedodd fod y gofal wedi bod allan o'r byd hwn yr ystod y beichiogrwydd a hyd at y funud olaf.

Dywedodd Joe: "Mae'r holl staff yn Ysbyty Brenhinol Gwent wedi bod yn anhygoel yn ystod y beichiogrwydd a hyd at y funud olaf. Ni allwn ddiolch digon iddyn nhw ac roedden nhw'n gwneud Lizzie deimlo mor gyfforddus ac yn gwneud i mi deimlo'n well am beidio â bod yno."

Digwyddiadau arbennig a drefnwyd ar gyfer Dydd Sant Ffolant

Cafodd pâr oedd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddementia cynnar syrpreis arbennig gan y Bwrdd Iechyd ar ddydd Sant Ffolant.



Roedd Wayne Davies yn rhannu ei stori am sut y daeth ef yn ofalwr i'w wraig a sut gafodd gefnogaeth gan staff y Bwrdd Iechyd. Roedd y staff am wneud rhywbeth arbennig ar gyfer Julie a Wayne i ddiolch iddyn nhw am godi ymwybyddiaeth o ddementia cynnar a threfnwyd te prynhawn Sant Ffolant ar gyfer y parti arbennig hwn.

Roedd y staff anhygoel yn Ward Sycamore yn Ysbyty Gwynllyw hefyd yn trefnu i blant Ysgol Gynradd Maindee ymweld â'r cleifion oedd yn byw gyda dementia ac aelodau o'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Dydd Sant Ffolant.

Mawrth 2019

Ymgyrch i hybu amrywiaeth o wasanaethau Gofal Sylfaenol

Roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau â'i ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau Gofal Sylfaenol sydd ar gael yn ein cymunedau.

Y nod oedd amlygu bod llawer o wahanol weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gallu helpu i ofalu am iechyd cleifion erbyn hyn - nid dim ond eu Meddyg Teulu. Roedd yn pwysleisio y gall dewis y gwasanaeth gofal iechyd cywir arbed amser ac yn aml ei gwneud hi'n haws i weld rhywun. Yn aml, nid ydych angen apwyntiad a byddwch yn cael eich trin gan weithiwr proffesiynol sydd orau ar gyfer eich gofynion.

Pharmacist

I can provide you with expert advice and over the counter treatment for a range of common complaints, including:

- Sore throat
- Nappy rash
- Backache
- Constipation
- Diarrhoea
- Hayfever
- Chicken pox
- Headlice
- Indigestion
- Dermatitis

#MyLocalHealth

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Nid yn unig bydd cleifion yn derbyn gwasanaeth cyflymach a gwell profiad, byddan nhw hefyd yn rhyddhau amser gwerthfawr Meddyg Teulu i leihau'r amseroedd aros ar gyfer y rhai sydd wir ei angen.

Gwelwch boster yr ymgyrch neu i gael mwy o wybodaeth ewch i <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/95394>

Gwobr Aur Safonau Iechyd Corfforaethol

Yn dilyn asesiad deuddydd dwys, mae'r Bwrdd Iechyd unwaith eto wedi llwyddo i ennill Gwobr Aur Safonau Iechyd Corfforaethol.

Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn siwrne barhaus o arfer da a gwelliant. Mae'n cymryd ymagwedd datblygiad cyfundrefnol i gefnogi datblygu a gweithredu'r polisïau a'r arferion sy'n hybu iechyd a lles cyflogai.

Mae'r Safonau Iechyd Corfforaethol hefyd yn cynnig Gwobr Platinwm. Mae hon yn wahanol i'r Wobr Aur gan ei fod yn archwilio i ba raddau mae'r sefydliad yn gweithio gyda chymunedau lleol i hybu eu hiechyd a'u lles. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn falch o fod wedi cael y Wobr Platinwm.

Edrych i'r dyfodol - ein Rhaglen Dyfodol Clinigol

Beth yw Dyfodol Clinigol?

Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn amlinellu sut rydyn ni'n cynllunio i wella ein gofal a'n gwasanaethau drwy:

- gyflenwi'r mwyafrif o'r gofal yn agos i'r cartref;
- greu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaethau rheolaidd; a
- chanoli gwasanaethau arbenigol a gofal critigol mewn lleoliad pwrpasol - Ysbyty Athrofaol y Grange.



Mae Gwasanaethau Sylfaenol a Chymuned yn ganolog i'r model ac yn ganolog hefyd i ddatblygu perthynas newydd gyda chleifion fel partneriaeth/cyd-gynhyrchwyr i gadw, cynnal a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae buddsoddi mewn ac atgyfnerthu gwasanaethau sylfaenol, cymuned a gofal cymdeithasol i greu'r gallu i gefnogi a thrin cleifion yn eu cartrefi a'u cymunedau, yn elfen graidd o'n strategaeth.


Mae enghreifftiau o fuddsoddiad o'r fath yn ddiweddar yn cynnwys ein menter HomeFirst, sy'n sicrhau bod gan y bobl y pecyn gofal a'r gefnogaeth

gywir er mwyn lleihau eu hamser mewn ysbyty neu ei fod yn cael ei negyddu. Mae hon yn fenter newydd sy'n caniatáu i gleifion weld ffisiotherapydd mewn rhai meddygfeydd - heb orfod cael eu cyfeirio at Feddyg Teulu yn y lle cyntaf ac mae'n cyflwyno Llyw-wyr Gofal mewn meddygfeydd i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol ac mor gyflym ag sy'n bosibl.

Bydd Ysbyty Athrofaol y Grange yn chwarae rôl gritigol gan wella darpariaeth gwasanaethau a deilliannau clinigol a chanoli gwasanaethau bregus cynaliadwy mewn un safle.

Bydd yn gwella profiad cleifion ac yn darparu cyfleusterau modern i gyflenwi gofal. Ynghyd â'n rhwydwaith ysbytai cefnogi, bydd cleifion yn cael gwell mynediad i ofal iechyd aciwt ac arbenigol.

Mae'r graffig isod yn crynhoi ein model gofal iechyd yn y dyfodol:



Cynnydd yn 2018/19

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhaglen Dyfodol Clinigol wedi symud ymlaen yn gyflym o safbwynt creu tîm Rhaglen gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol ynghyd â gyrru agenda'r rhaglen ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r rhaglen hon wedi dod â phob maes o'r sefydliad at ei gilydd ac mae'n gweithio'n helaeth i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a staff

mewnol. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu o leiaf 70 cyflwyniad i grwpiau staff ac aelodau'r cyhoedd ers mis Hydref 2018 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y datblygiadau ac i fynd â'u cwestiynau a'u pryderon yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.

Ail-lunio Llwybrau Clinigol

Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith diffiniedig gan gynnwys un sydd wedi bod yn datblygu ail-lunio a gwella llwybrau triniaeth glinigol gan edrych ar y modd y mae ein dinasyddion yn cael mynediad i'n gwasanaethau, o'r cartref drwy eu hopsiynau diagnosis, triniaethau a gofal amrywiol ac yn ôl adre eto.

Gwnaed gwaith gyda chlinigwyr a staff eraill i ddatblygu modelau gofal fydd yn hysbysu darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol - byddan nhw'n caniatáu i ni ddatblygu negeseuon i'r cyhoedd am gyfluniad ein hysbytai a'n gwasanaethau yn y gymuned yng ngoleuni agor Ysbyty Athrofaol y Grange yn ystod Gwanwyn 2021. Maen nhw hefyd yn bwriadu dechrau trafodaethau gyda staff am y newid a allai ddigwydd i'w rolau a/neu eu mannau gwaith yn y dyfodol.



Hyrwyddwyr Dyfodol Clinigol

Mae Rhaglen yr Hyrwyddwyr yn awr wedi'i sefydlu ac mae bron i 500 aelod o staff - gan gynnwys rhai o'n gwirfoddolwyr - wedi arwyddo iddi.



Cynhaliwyd sawl gweithdy i helpu i ddarparu'r Hyrwyddwyr ar gyfer eu rôl i gefnogi eu cydweithwyr drwy'r newidiadau ar y gorwel ac i'w galluogi i rannu eu syniadau ar gyfer datblygu'r cynllun.

Ysbyty Athrofaol y Grange (Canolfan Gofal Critigol Arbenigol)

Un o arwyddion mwyaf gweladwy cynnydd y Rhaglen Dyfodol Clinigol yw adeiladu Ysbyty 471-gwely Athrofaol y Grange fydd yn darparu gofal arbenigol a chritigol ar ein safle yn Llanfrechfa ger Cwmbrân.

Bydd y gwasanaethau hynny sy'n darparu diagnosis, gofal a thriniaeth ar gyfer y cyflyrau mwyaf difrifol, yn symud o Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall a'u canoli yn yr ysbyty newydd.



Ymhlith y gwasanaethau fydd yn symud, bydd yr Adrannau Brys, Unedau Gofal Dwys, Cardioleg, ein Huned Strôc Gor Aciwt, cleifion paediatreg a genedigaethau risg uchel. Ni fydd clinigau cleifion allanol yn ysbyty Athrofaol y Grange - bydd y rhain yn parhau i gael eu darparu yn ein Hysbytai Cyffredinol Lleol lle bydd unedau mamolaeth dan arweiniad bydwagedd hefyd i gefnogi genedigaethau risg isel.

Mae'r lluniau isod a gafwyd gan y contractwyr Laing O'Rourke, yn dangos cynnydd yr ysbyty newydd:



Drwy wahanu triniaeth cleifion brys oddi wrth y rhai sydd angen gofal wedi'i drefnu neu arferol, gallwn sicrhau bod ein staff hynod arbenigol ar gael yn Ysbyty Athrofaol y Grange i ofalu am gleifion â chyflyrau mwy difrifol 24 awr y dydd. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i

ddatblygu ein holl Ysbytai Cyffredinol Lleol i gynnal mwy o ddiagnosis a gofal wedi'i drefnu ac arferol yn y dyfodol.

Cymeradwy-wyd yr arian ar gyfer yr ysbyty gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref a dechreuwyd ar y gwaith ar y safle yn ystod mis Gorffennaf 2017. Ers hynny, mae amlen allanol yr adeilad wedi'i chwblhau. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r contractwr, Laing O'Rourke, i sicrhau bod y cynllun yn addas i'w bwrpas ac y bydd yn ateb gofynion cleifion y dyfodol yn union. Mae llawer o'r adeiladu wedi bod fesul modiwl ac oddi ar y safle sy'n golygu bod y broses adeiladu'n hynod gyflym.

Yn greiddiol i lwyddiant yr ysbyty newydd a'n gwasanaethau ehangach – sy'n awr yn cael eu hail-lunio fel rhan o'r Rhaglen Dyfodol Clinigol - bydd cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd er mwyn iddyn nhw ddeall sut i gael mynediad i'r gwasanaethau yn y dyfodol. Am beth amser nawr mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod y n cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol drwy Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, grwpiau cymuned, Cyngorau Lleol, Cyngorau Cymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol ar draws Gwent.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ceisio sicrhau nad yw'r gwaith mawr ar y safle wedi bod yn effeithio'n negyddol ar drigolion lleol a chynhelir nosweithiau agored yn rheolaidd yn swyddfeydd y safle i ganiatau i'r cyhoedd ddod i mewn a gofyn cwestiynau i'r tîm wyneb yn wyneb. Byddwn yn parhau â'r deialog ddwyffordd hon gyda thrigolion lleol sy'n byw yn ymyl safle'r adeiladu.

Dathlu Carreg Filltir yr Ysbyty

Ym mis Mawrth, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC yn perfformio'r seremoni Gosod y Garreg Gopa o flaen cynulleidfa fawr o westai gan gynnwys aelodau staff y Bwrdd Iechyd a'r timau fu'n adeiladu.

Mae Gosod y Garreg Gopa'n nodi'r adeilad yn cyrraedd ei bwynt uchaf.



Edrych Ymlaen

Bydd 2019 i mewn i 2020 yn gweld gwneud llawer o waith ar draws y rhaglen a'r sefydliad yn ehangach. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i sicrhau bod system gludiant gadarn rhwng safleoedd ar gael i symud cleifion rhwng safleoedd ynghyd â pharatoi'n weithredol comisiynu Ysbyty Athrofaol y Grange ar raddfa fawr. Bydd hwn yn amser prysur i nifer fawr o dimau.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr cludiant cyhoeddus i helpu i sicrhau cynnal y gwasanaethau a'u datblygu ymhellach i sicrhau mynediad hawdd i safleoedd ein hysbytai.



#DyfodolClinigol

EGLURHAD SYML...

- 01** Rydyn ni'n trin mwy o gleifion nag erioed o'r blaen, felly mae'n rhaid i'n Gwasanaethau GIG newid 
- 02** Byddwn ni'n ceisio gofalu am bobl mor agos i'w cartrefi ag sy'n bosibl- ysbyty yw'r dewis olaf! 
- 03** Pan fydd ein cleifion yn ddifrifol sâl, byddan nhw'n mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor (o 2021) i gael gofal arbenigol. 

 facebook.com/AneurinBevanHealthBoard

 twitter.com/AneurinBevanUHB

 instagram.com/aneurin_bevan_uhb

 Swyddfa Lywodraethol Cymru a Lloegr

 Dyfodol Clinigol Clinical Futures



#ClinicalFutures

EXPLAINED SIMPLY...

- 01** We are treating more patients than ever before, so our NHS services need to change 
- 02** We will aim to care for people as close to home as possible - hospital is the last resort 
- 03** When our patients are very seriously ill, they will go to The Grange University Hospital (from 2021) for specialist care. 

 facebook.com/AneurinBevanHealthBoard

 twitter.com/AneurinBevanUHB

 instagram.com/aneurin_bevan_uhb

 Email: ClinicalFuturesabb@wales.nhs.uk

 Swyddfa Lywodraethol Cymru a Lloegr

 Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Cyflawni ein Hamcanion Llesiant

Rydyn ni'n sicrhau bod y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ganolog i'n rhaglen trawsnewid Dyfodol Clinigol. Dyfodol Clinigol yw strategaeth trawsnewid y Bwrdd Iechyd ac mae'n gatalydd ar gyfer gweithredu'r Ddeddf.

Ar draws y Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n newid y modd y mae'n gwasanaethau'n cael eu cyflenwi drwy'r rhaglen Dyfodol Clinigol sydd hefyd yn ymgorffori cynllunio gwasanaethau, ail fodelu a gweithgareddau trawsnewid.

Mae'r prif amcanion trawsnewid hefyd yn adlewyrchu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac maen nhw wedi'u halinio i amcanion llesiant y cytunwyd arny'n nhw gan y Bwrdd Iechyd:

- cyflenwi mwy o ofal yn nes i gartrefi cleifion mewn lleoliad gofal sylfaenol a'r gymuned;
- gwella profiad cleifion; a
- chreu system ofal gynaliadwy.

Yr unig ffordd i wireddu'r uchelgais hwn yw drwy gydweithio agos ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus ac mewn partneriaeth gyda chleifion, eu gofalwyr a dinasyddion. Mae bod yn gyson ac yn benderfynol o gynnwys dulliau gwaith ar sail integreiddio, cydweithio, tymor hir, cyfranogiad ac atal yn hanfodol i lwyddiant Dyfodol Clinigol.

I gael mwy o fanylion ar sut rydyn ni'n cyflawni **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** a sut rydyn ni'n datblygu ein Hamcanion Llesiant, gweler tudalen 64 yr adroddiad hwn.

Dyfodol Clinigol – I gloi

Yn 2018/19, gwelwyd ein rhaglen Dyfodol Clinigol yn newid gêr gyda chydlyniant go iawn ac un sy'n canolbwyntio ar bob agwedd o'r trawsnewid – nid dim ond yr ysbyty newydd.

Wrth i Ysbyty Athrofaol y Grange barhau i gael ei adeiladu drwy 2019, byddwn yn dechrau gweithredu ein modelau gofal newydd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig y gofal a'r gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cleifion.



Llwyddiannau Staff

Dathlu ein Staff

Cynhaliwyd yr wythfed seremoni Gwobrau i Gynabod Staff ym mis Rhagfyr 2018 yng Nghanolfan Christchurch, Casnewydd. Dangoswyd y seremoni drwy Facebook Live ac roedd dros 300 o aelodau staff yn mynychu'r achlysur oedd yn dathlu llwyddiannau staff ar draws y Bwrdd Iechyd.

Gwestywraig yr achlysur oedd Judith Paget, y Prif Weithredwr.

Dywedodd Judith: "Fel eich Prif Weithredwr, mae'n ffraind cael arwain y seremoni wobrwyo. Rydw i'n falch iawn o ystod a safon yr enwebiadau a gafwyd eleni. Derbyniwyd nifer digynsail o enwebiadau sef **196**. Cydnabyddaf hyd yn oed gyda chynifer â hyn o enwebiadau, mae ciplun yn unig o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan y staff bob dydd yw hyn."



Roedd y gwobrau'n cydnabod staff a thimau ar draws y sefydliad oedd wedi cyflenwi gwasanaethau a dangos aweiniad o'r safon uchaf.

Enillwyr y gwobrau oedd:

- **Iechyd a Lles** – Clinig Steroidau Gwasanaeth Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau Gwent
- **Gwella Profiad Cleifion** – Ffisiotherapydd Gofal Critigol Ysbyty Brenhinol Gwent, Sara Biggs
- **Arweinyddiaeth** – Dr Nora Killeen (MT, Meddygfa Cwm Calon, Abertyleri)
- **Gweithio mewn Partneriaeth** – Prosiect Rhandir Talygarden, Therapydd Galwedigaethol Nicole Harry/ Gweithiwr Cefnogi Kate Pattimore
- **Ansawdd, Cynladwyedd ac Effeithlonrwydd** – Y Brif Nyrs, Dawn Leah
- **Tîm y Flwyddyn** – Uned Mân Anafiadau, Ysbyty Aneurin Bevan
- **Mynd yr Ail Filltir** – Hyfforddwr Technegol, Ysbyty Gwynllyw, Kevin Davies
- **Addysg, Ymchwil ac Arloesi** – Ymgynghorydd Bydwreigiaeth, Louise Taylor a Bydwraig Ymchwil, Emma Mills
- **Gwobr Dewis y Cleifion** – Bydwraig y Gymuned, Sue Davis
- **Gwobr y Cadeirydd** – Porthorion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- **Gwobr y Prif Weithredwr** – Y tîm yn Ysbyty Aneurin Bevan
- **Gwobr Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan** – Tanya Strange, Cyfarwyddwr Nyrsio Cysylltiol

Byw ein Gwerthoedd:

Jane Bevan (Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd)
Christopher Evans (Swyddog Cofnodion Iechyd)
Dr Amer Jafar (Ysbyty Gwynllyw)
Pat O'Meara (Nyrs Gofal Lliniarol)
Carey Weeks (Radiograffydd)
Wendy Hale (Cynorthwy-ydd Gofal Iechyd)
Dr Anna Lindsay (D&A Ysbyty Brenhinol Gwent)



Gwobrau Cydnabyddiaeth Arbennig

- Peter Carr (Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd)
- Debra Wood Lawson (Pennaeth Staff)
- Richard Bevan (Ysgrifennydd y Bwrdd)
- Kath Smith (Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cysylltiol)
- Sandra Williams (Cynorthwy-ydd Dieteteg)



Llongyfarchiadau i bawb!

Anrhyddedau Pen blwydd y Frenhines 2018

Dymuna'r Bwrdd Iechyd longyfarch y rhai a gydnabuwyd yn Anrhyddedau Pen blwydd y Frenhines eleni.

Llongyfarchiadau i Christopher Koehli, cyn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd a'r Rheolwr Nyrsys Clinigol Alison Pugh a gafodd eu cydnabod yn Anrhyddedau Pen blwydd y Frenhines.

Cafodd Chris (ar y dde), o Gwmbrân, ei anrhyddedu gyda'r MBE am wasanaethau i ofalwyr a gofal iechyd yng Nghymru. Yn ei rôl flaenorol fel Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd, roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo cynllun gwasanaethau i gleifion. Defnyddiodd ei arbenigedd i gynghori ar wella perfformiad gwasanaethau iechyd i sicrhau eu bod o'r safon uchaf.



Cafodd Alison Pugh (ar y chwith), o Blaina, ei anrhyddedu gyda Medal yr Ymherodraeth Brydeinig (BEM) am wasanaethau i haematoleg a gofal canser. Mae Alison yn nyrs sy'n cael ei pharchu'n fawr iawn ac sydd wedi datblygu'r rôl arloesol o Reolwraig Nyrsys Clinigol mewn Gwasanaethau Haematoleg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Anrhyddedd Blwyddyn Newydd i Uwch Nyrs

Llongyfarchiadau i Gail Powell, Uwch Nyrs ac Arweinydd Proffesiynol Ymwelwyr Iechyd oedd yn derbyn MBE yn Anrhyddedau'r Flwyddyn Newydd eleni am ei gwasanaethau i ymwelwyr iechyd.



Gwobrau BMA Cymru a'r BMJ– Louise Cook

Mae Louise Cook yn feddyg Arbenigol Cysylltiol sy'n gweithio o fewn Iechyd Rhyw.

Yn seremoni Gwobrau BMA Cymru a'r BMJ yng Nghaerdydd, roedd yn dderbynnydd balch '**Gwobr Arloesi mewn Addysg 2018 - Staff ac Arbenigwr Cysylltiol Gorau**'.

Roedd y wobwr hon yn cydnabod y gwaith caled a wnaeth i ddatblygu a chyflwyno offeryn sgrinio ar gyfer ymelwa rhywiol o fewn y gwasanaeth Rhyw ac Atgennedlu.

Enillodd Marie Nixon Wobr Gofalwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymdeithas MS 2018

Enillodd Marie Nixon, Addysgwr Gofal Cymhleth Wobr Gofalwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymdeithas MS (Sglerosis Ymledol) ym mis Ebrill 2018.



Mae'r categori Gofalwr y Flwyddyn yn cydnabod person sydd wedi gwneud gwahaniaeth positif i fywyd rhywun sy'n byw gyda MS.

Bu Marie yn ofalwr i'w gŵr Stuart am dros 20 mlynedd tra hefyd yn gofalu am ei phlant, un ohonyn nhw'n dioddef gan Asperger's, gweithio llawn amser ac ymgyrchu, codi arian a gwirfoddoli gyda Chymdeithas MS.

Gwobr y Frenhines Elizabeth, y Fam Frenhines am Wasanaeth Anghyffredin

Yn seremoni Gwobrau QNI yng Ngwesty'r Royal Garden yn Llundain ym mis Hydref, cyflwynwyd Gwobr y Frenhines Elizabeth, y Fam Frenhines am Wasanaeth Anghyffredin i Tanya Strange, Nyrs Ranbarthol. Roedd dros 300 o nyrsys a gwestai'n mynychu'r achlysur enwog hwn.

Mae seremoni'r Gwobrau'n cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau mewn nyrsio yn y gymuned ac ymroddiad, angerdd a sgiliau nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned heddiw.

Ffrind i Mi yn ennill Gwobr GIG Cymru 2018

Llongyfarchiadau i dîm Ffrind i Mi oedd yn dathlu ar ôl ennill Gwobr GIG Cymru ym mhen blwydd y gwobrau'n unarddeg oed.

Enillodd “Ffrind i Mi: presgripsiwn ar gyfer unigrwydd” wobwr ail-lunio a chyflenwi Dinasyddion yn Ganolog i Wasanaeth gyda chefnogaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae Ffrind i Mi yn fenter a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd a'i Bartneriaid i geisio a sicrhau bod unrhyw un sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig yn derbyn cefnogaeth i ail gysylltu gyda'u cymunedau.



Gwobrau Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd

Llwyddiant eto i'r tîm Radiograffi yn Ysbyty Nevill Hall yng ngwobrau 'Tîm Lleoliad Gorau'.



Unwaith eto mae'r Tîm Radiograffi yn Ysbyty Nevill Hall wedi llwyddo i dderbyn gwobr gan Brifysgol Caerdydd yn seremoni Gwobrau Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Fel ail eleni ac wedi ennill y wobwr Tîm Lleoliad Gorau yn 2016 roedden nhw'n falch o gael eu cydnabod am eu gwaith caled a'u hymroddiad i addysg glinigol eu myfyrwyr.

Roedd Carol Osman, Tiwtor Clinigol, yn falch o dderbyn y wobwr ar ran y tîm.

Gwobrau Iechyd a Gofal South Wales Argus

Llongyfarchiadau i Dr Tim Rogerson, enillydd 'Meddyg y Flwyddyn' a Sue Woods, Nyrs Babanod Newydd-anedig, enillydd 'Gwobr Nyrsio Cydnabyddiaeth Arbennig' Gwobrau Iechyd a Gofal South Wales Argus 2018.

Llwyddiant yn achlysur Gwobrau HFMA

Enillodd Ffion Geary Wobr y Myfyrwyr (noddwyd gan CIPFA Cymru a'i chyflwyno gan Bennaeth y Gangen, Chris Tidswell), am ei hymrwymiad a'i hymroddiad anghyffredin i'r Cynllun Gradd Hyfforddi Rheolaeth Ariannol.

Derbyniodd Tim Kelland Gymeradwyaeth Uchel yng Ngwobr Datblygu Hyfforddiant a Sgiliau (noddir gan Academi Cyllid GIG Cymru a'i chyflwyno gan ei Chyfarwyddwr Rebecca Richards) am ei gyfraniad a'i ymroddiad sylweddol i gydweithwyr ac am ddatblygu cydweithwyr ariannol ac anariannol o fewn y Bwrdd Iechyd.



Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN

Llongyfarchiadau i'n holl staff oedd wedi ennill yng Ngwobrau Nyrs RCN y Flwyddyn.

Enillwyr:

Jane Carpenter – Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig

Kerry Phillips a Louise Taylor – Gwobr Plant a Bydwragedd

Hannah Rowlands – Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd

Ysbyty Ystrad Fawr – Ffisiotherapyddion y Gangen Orau

Derbyniodd y tîm yng nghanen NSS Casnewydd a Chaerffili wobwr am 'Ffisiotherapyddion y Gangen Orau' oddi wrth Gymdeithas Genedlaethol Ankylosing Spondylitis.

Pleidleisir gan gleifion ac mae'r Gwobrau Dewis Cleifion yn cydnabod y gweithwyr proffesiynol iechyd hynny sydd wedi mynd yr ail filltir i helpu pobl ag axial spondyloarthritis gan gynnwys ankylosing spondylitis (AS). Cyflwynwyd y wobwr yn y Tŷ Cyffredin ar 3 Rhagfyr 2018.



Gwobrau Gwasanaeth Hir – Rhagfyr 2018



Roedd yr Achlysur Cydnabod Gwasanaeth Hir yn dod â staff o bob ardal o'n Bwrdd Iechyd at ei gilydd. Roedd pob un fynychodd yn derbyn tystysgrif gwasanaeth hir a bathodyn pin i gydnabod eu blynyddoedd maith o wasanaeth.

Roedd y rhai a fynychodd yr achlysur â 25 mlynedd o wasanaeth o leiaf gyda dau unigolyn â 41.5 mlynedd o wasanaeth i'r GIG i'w clodfori.

Y Prif Weithredwr Judith Paget oedd yn arwain yr achlysur a chyflwynwyd tystysgrifau gan Ann Lloyd, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Gwobr Rhagoriaeth Addysgu (Israddedig) 2018

Llongyfarchiadau i Dr Inder Singh ar dderbyn Gwobr Rhagoriaeth Addysgu (Israddedig) 2018. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn yr Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd ym mis Chwefror 2019.



Bwrdd Iechyd yn Ennill Dwy Wobr Curwch y Ffliw



Y Bwrdd Iechyd oedd enillwyr y **Wobr Ymgynghra Mwyaf Arloesol Curwch y Ffliw** am eu fideo 'Ymladdwyr Ffliw' a hefyd y **Wobr Tîm Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Curwch y Ffliw** am gael mwy na 60% o staff y llinell flaen i dderbyn y brechiad fflw.



Louise Taylor – Gwobr RCM 2019

Enillodd Louise Taylor y wobwr RCM am Droï Polisi yn Bractis a chyflwynodd Alex Jones, cyflwynydd One Show y BBC y wobwr iddi mewn seremoni Wobrwyo yn Llundain.

Gwobr Rheoli Mannau Gwyrdd yn y Gymuned

Enwyd prosiect y gymuned Gardd Furiog y Grange Llanfrechfa yng ngwobrau Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol - mannau gwyrdd dan reolaeth.

Mae'r gwobrau'n ddiwedd ar y flwyddyn gyntaf o arian Llywodraeth Cymru i Wasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol Cymru.



Gwobr Gwasanaeth Nodedig a gyflwynwyd i Ymgynghorydd Seiciatreg



Cyflwynwyd gwobr i Dr V. Bapuji Rao, Ymgynghorydd Seiciatreg o uned Tŷ Siriol, Ysbyty'r Sir am wasanaethau nodedig i'r GIG a'r gymuned gan yr Anrhydeddus Alun Cairns, AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 23 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd y seremoni ym mhresenoldeb gwestai nodedig eraill gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford a Vaughan Gething AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyflwynwyd y wobwr mewn cynhadledd yn Neuadd y Ddinas Caerdydd a drefnwyd gan BAPIO ar y cyd gyda Phrifysgol De Cymru, Academi Cydweithwyr Brenhinol a HEIW. Hefyd, derbyniodd Dr Rao wobwr 70 y GIG am Ragoriaeth.

Gwobr Gwasanaeth 50 mlynedd i Beintiwr ac Addurnwr Ysbyty Brenhinol Gwent

Yn ystod ein cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mawrth, cyflwynodd y Cadeirydd, Ann Lloyd wobwr Gwasanaeth 50 mlynedd i John Evans, Peintiwr ac Addurnwr yn Ysbyty Brenhinol Gwent.



Adroddiad Dadansoddiad Perfformiad

Sut roedden ni'n perfformio yn 2018/19

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi syniad i chi sut rydyn ni'n perfformio o safbwynt ein safonau a'n huchelgeisiau ein hunain ynghyd ag yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru'n eu gosod ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Y Cerdyn Sgorio Cytbwys - Trosolwg

Offeryn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cerdyn Sgorio Cytbwys sy'n rhoi fframwaith i GIG Cymru fonitro perfformiad yn ei erbyn. Mae'n dangos cyfres safonol o ddangosyddion er mwyn gwerthuso perfformiad sefydliad.

Mae'r **Cerdyn Sgorio Cytbwys** isod yn dangos sut roedd ein Bwrdd Iechyd ni'n perfformio yn erbyn bob categori yn ystod 2018/19. Gwelir mwy o wybodaeth am y meysydd hyn yn yr adroddiad (dolen isod).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwell perfformiad	Perfformiad cynaliadwy	Dirywiad mewn perfformiad	Crynodeb o berfformiad	Targedau a gyflawnwyd
AROS YN IACH – digon o wybodaeth a chymorth i reoli fy iechyd corff a meddwl	2 fesur	0 fesur	1 fesur		
GOFAL DIOGEL – cael fy niogelu rhag niwed ac yn diogelu fy hun rhag niwed y gwn i amdano	9 fesur	0 fesur	7 mesur		4 mesur
GOFAL UNIGOL – Cael fy nhirin fel unigolyn a'm hanghenion a'm cyfrifoldebau fy hun	2 fesur	1 fesur	2 fesur		3 mesur
EIN STAFF & ADNODDAU – Gallu dod o hyd i wybodaeth am sut mae'r GIG yn agored ac yn dryloyw o ran y defnydd o adnoddau a gallaf eu defnyddio'n ofalus	5 mesur	0 fesur	6 mesur		2 fesur
GOFAL PRYDLON – cael mynediad prydlon i wasanaethau ar sail angen clinigol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fy ngofal	10 fesur	0 fesur	13 fesur		10 fesur
GOFAL EFFEITHLON – derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus	5 mesur	0 fesur	2 fesur		1 fesur
GOFAL URDDASOL – cael fy nhirin â gofal urddasol a pharchus ac rydw i'n trin eraill yr un fath	1 fesur	0 fesur	2 fesur		
Crynodeb	34 mesur	1 mesur	33 mesur		20 mesur

*perthyn i'r mesurau hynny lle mae data 20/12/19 (Ebrill 2018 - Mawrth 2019) wedi'i gwblhau

Mae ein **Hadroddiad Perfformiad** llawn (dogfen arwahân) yn rhoi manylion am sut rydyn ni wedi perfformio yn erbyn ein targedau a'r camau sydd wedi'u cynllunio i gynnal neu wella ein perfformiad. Gwellir hwn yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

Perfformiad Ariannol 2018/19

Mae'n braf gallu dweud bod y Bwrdd Iechyd unwaith eto wedi cyflenwi gwasanaethau o fewn ei adnoddau dyranedig yn 2018/19.

Mae Deddf GIG (Cymru) 2014 yn disgwyl bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio adennill costau dros gyfnod o dair blynedd. Mesurwyd y rhain am y tro cyntaf yn 2016/17.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r ddyletswydd statudol hon gyda gweddill yn y flwyddyn o £235k ar refeniw a thanwariant yn erbyn cyfalaf o £41k.

Mae'r tablau isod yn dangos perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei refeniw a'r terfynau adnoddau cyfalaf dros y pum mlynedd ddiwethaf:

<u>Perfformiad Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol a Dyletswydd Dadansoddiad Tair Blynedd Statudol</u>	2014/15 £000	2015/16 £000	2016/17 £000	2017/18 £000	2018/19 £000
<u>Tanwariant Terfyn Adnoddau Refeniw Blynnyddol</u>	409	214	49	246	235
<u>Perfformiad Refeniw Tair Blynedd Statudol</u>	amh	amh	49	295	530

<u>Perfformiad Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol a Dyletswydd Dadansoddiad Tair Blynedd Statudol</u>	2014/15 £000	2015/16 £000	2016/17 £000	2017/18 £000	2018/19 £000
<u>Tanwariant Terfyn Adnoddau Cyfalaf Blynnyddol</u>	15	89	42	78	41
<u>Perfformiad Cyfalaf Tair Blynedd Statudol</u>	amh	amh	42	120	161

Roedd cyflawni dyletswyddau ariannol statudol y Bwrdd Iechyd yn dasg heriol. Mae cyflawni rhaglen arbedion sylweddol ynghyd â rheolaeth ariannol gadarn o fewn y sefydliad wedi helpu i danategu cyflawni'r targedau.

Cyfrifon 2018/19

Mae cyfrifon llawn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'u harchwilio ar gael drwy'r ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>

Cyfathrebu. Ymgysylltu a Phartneriaethau

Yn 2018/19, rydym wedi atgyfnerthu ein gweithgareddau ymgysylltu ac mae'r rhain wedi'u disgrifio isod.

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol: Rydym wedi parhau i ddatblygu trefniadau cwbl sefydledig gyda'r pum Awdurdod Lleol yn ein hardal. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned Lleol ar ystod o newidiadau a datblygiadau gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae rolau actif mewn Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn mynychu trefniadau craffu'r Awdurdod Lleol. Hefyd, rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r Cyngor Llawn neu Bwyllgorau Craffu pob Awdurdod Lleol i ddarparu cyflwyniadau diweddar ac i drafod yn agored unrhyw faterion neu gynlluniau allweddol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio fel partner allweddol ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Mwyaf yn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn partneriaeth a hefyd Grŵp Arweinyddiaeth gyda chefnogaeth ystod o raglenni fel Partneriaethau Strategol, Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau): Blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd oedd gweithio'n rhagweithiol gydag ACau ac ASau i sicrhau eu bod yn cael y newyddion diweddaraf a'u bod yn ymwybodol o ymagweddau a datblygiadau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhoi briff rheolaidd i ACau ac i ASau sy'n darparu diweddariad byr ar feysydd diddordeb a datblygiad o raglen waith y Bwrdd Iechyd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd gydag ACau ac yn 2018/19 roedd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i **372** ymholiad ysgrifenedig gan ACau ac ASau.

Gweithio gyda Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Troseddu (PCC): Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n bositif gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent.



Gweithio gyda'r Trydydd Sector: Mae trefniadau sefydledig gyda'r trydydd sector yn bodoli yn ein hardal, yn arbennig drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rhan werthfawr yn cefnogi ein agenda ymgysylltu ac yn chwarae rôl actif yng Ngrŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ystod o brosiectau mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr. Rhai enghreifftiau:

- Gwasanaeth Cyfeillio Red Robins Age Cymru Gwent yn Ysbyty Gwynllyw ac Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd.
- C.H.A.a.T. (Holi a Sgwrsio Cartrefi Gofal) - Aelodau o Gymdeithas Gweithwyr GIG Gwent sydd wedi ymddeol yw'r gwirfoddolwyr. Fel cyn gyflogai o'r GIG, maen nhw'n angerddol dros wella gofal i bobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio. Yn ystod 2016, roedd gwirfoddolwyr CHAaT yn siarad â dros 1,600 o drigolion a 350 o berthnasau. O wrando ar adborth, cynhelir achlysur ymgysylltu gyda phobl hŷn, perthnasau a chartrefi gofal ym mis Ebrill i ystyried gweithgaredd mwy ystyrlon.
- Peilot C.H.A.a.T. Ysbyty - Bydd Gwirfoddolwyr CHAaT yn cefnogi peilot mewn wardiau ysbytai i gefnogi pobl hŷn a'u perthnasau adeg y pontio. Cytunwyd ar systemau atgyfeirio, taflenni gwybodaeth i gleifion ac adborth i brosesau'r ward. Mewn partneriaeth gyda'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, mae menter ar y gweill lle bydd Gwirfoddolwyr CHAaT yn siarad â phobl hŷn sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl am eu profiadau gofal. Cynhelir trafodaethau pellach am y gwirfoddolwyr yn siarad â chleifion sy'n byw gyda dementia a'u perthnasau.
- Ffrind i Mi - cais cydweithredol llwyddiannus i dudalen 'syniadau' Her Technoleg Iechyd Cymru i ddatblygu gwasanaethau cyfeillio ar gyfer y bobl sy'n ynysig/ unig yn gymdeithasol. Mae hwn yn bartneriaeth sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, mudiadau gwirfoddol, Coleg Gwent, Iechyd y Cyhoedd Cymru, Cymdeithasau Tai, Age Cymru, SSAFA a Fforwm y Cyn Filwyr. Yn barod, mae hwn wedi gweld symudiad cymdeithasol cyfunol wedi'i anelu at ddatblygu cymunedau trugarog. Mae Gwirfoddolwyr hefyd yn cyfeillio, helpu a chefnogi cleifion yn ein rhwydwaith o ysbytai.
- Gweithwyr Cefnogi Dementia - mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Alzheimer's, mae chwe Gweithiwr Cefnogi Dementia (DSWs) wedi'u

penodi i weithio ar draws ardaloedd NCN. Drwy alinio'n agos gyda'r Gwasanaeth Asesu Cof, bydd y DSWs yn cefnogi pobl o bwynt diagnosis. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu drwy'r Bwrdd Dementia.

- Canolfan Blant Serennu a Sparkle – mae ystod eang o rolau gwirfoddoli yng Nghanolfan Blant Serennu, High Cross, Casnewydd.
- Cymuned Wal Furiog y Grange Llanfrechfa, Cwmbran fel rhan o raglen Ysbyty Athrofaol y Grange.

Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned:

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (CIC), sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Mae hefyd yn warchotgi GIG ar gyfer pob agwedd o ofal a gwasanaethau.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan wedi parhau i gynnig heriau adeiladol lle mae hynny'n briodol ac mae hefyd wedi darparu cefnogaeth ragorol i faterion newid gwasanaethau allweddol drwy gydol 2018/19. Rydyn ni'n rheolaidd yn derbyn cyngor gan y Cyngor Iechyd Cymuned o safbwynt ymgysylltu'n briodol â chleifion a'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Cyngor Gweithredol a Chyngor Llawn y Cyngor Iechyd Cymuned a hefyd mae'n cymryd rhan mewn trefniadau'r Cyd-Bwyllgor Cynllunio.



Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn darparu adroddiad i bob un o Gyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, 6-8 Clos William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516 (mae peiriant ateb 24-awr)

E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i arwain y ffordd ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd

bod niferoedd ein dilynwyr Facebook, Twitter ac Instagram yn dal i gynyddu gyda mwy o bobl yn cyfathrebu â ni drwy'r sianeli hyn.

Cynhaliwyd cyfres o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol proffil uchel drwy ein Tîm Cyfathrebu ond hefyd mewn partneriaeth â chyrrff GIG eraill yng Nghymru a phartneriaid y gymuned ehangach e.e. Awdurdodau Lleol a chyrrff y Trydydd Sector. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws arbennig eleni ar ein rhaglen Dyfodol Clinigol, recriwtio, dathlu ein staff a themâu gofal sylfaenol.



Mae ein dull cyfathrebu 'digidol gyntaf' wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y blynyddoedd a fu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwybodaeth, tra'n awr rydyn ni'n ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n actif gyda'n cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid drwy gyfryngau cymdeithasol. Gwneir hyn mewn amser real, drwy gwestiynau cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau, eu profiad presennol o'n gwasanaethau ac ansawdd eu gofal. Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi buddsoddi amser sylweddol yn cydlynu ac yn ymateb i agweddau cleifion a'r cyhoedd yn ddyddiol.

Yr hyn sydd wedi profi'n hynod lwyddiannus eleni yw'r estyniad pellach o'n defnydd o graffigau, storïau fideo a darnau fideo i gefnogi ein dulliau cyfathrebu traddodiadol. O safbwynt ein darnau fideo, mae'r rhain wedi profi'n hynod lwyddiannus gyda'n staff a chleifion/ cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd wedi gallu cynorthwyo ymgyrch y Bwrdd Iechyd i recriwtio staff newydd mewn rolau hanfodol drwy farchnata a hysbysebu'n ddigidol. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd gyrraedd mannau lle nad oedd yn bosibl drwy ddulliau a chyfryngau traddodiadol.



Cyfathrebu am Gynllun y Gaeaf

Ym mis Tachwedd 2018, lansiodd y Bwrdd Iechyd ymgyrch 'Eich rhoi CHI'N gyntaf y gaeaf hwn' - i gynnig gwybodaeth a chynghor am ein gwasanaethau iechyd yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd yr ymgyrch yn rhedeg hyd at ddiwedd Chwefror 2019.

Fel rhan o'r ymgyrch, roedden ni'n dangos sut mae ein haelodau staff yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod cleifion yn ddiogel ac yn cael gofal da yn ystod y gaeaf. Roedden ni hefyd yn dangos sut gall ein cleifion ac aelodau'r cyhoedd yng Ngwent fod yn 'Arwyr y Gaeaf' drwy wneud y dewisiadau iechyd cywir.



I wella ysbryd staff drwy fisoedd y gaeaf roedden ni'n annog staff ac aelodau'r cyhoedd i enwebu eu 'Harwyr y Gaeaf' eu hunain (naill ai cydweithwyr, cleifion neu aelodau'r teulu). Cydnabuwyd yr arwyr hyn drwy gyflwyno siocledi 'Heroes' ac fe'u ffilmiwyd a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn helaeth i ledaenu negeseuon ein hymgyrch gaeaf. Ar gyfartaledd, cyhoeddwyd 5 neges y dydd ar draws Facebook, Twitter ac Instagram. Yn gyffredinol, roedden ni'n cynhyrchu tua 200 o graffigau ymgyrch y gaeaf.

I gynnwys ychydig o hwyl yn yr ymgyrch, anogwyd staff i wisgo clogynnau a masgiau i ddangos eu bod yn 'uwcharwyr iechyd' - term a ddefnyddir yn aml gan gleifion i'w disgrifio.

Gellir gweld deunyddiau'r ymgyrch ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r hashnod **#BeAWinterHero**



Yr Iaith Gymraeg

Gyda nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg yn byw ym mhob ardal o'r gymuned rydyn ni'n ei gwasanaethu a'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg lleol, mae ein hymrwymiad i gyflenwi a gwella ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn bwysicach nag erioed.

Cymraeg

Mae ystyriaethau iaith Gymraeg yn parhau i gael eu hatgyfnerthu ymhellach ac yn rhan eglur a hanfodol o gynllunio gwasanaethau drwy ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Gellir gweld hwn ar:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/88054>



Agorwyd y Ganolfan Iaith Gymraeg, Canolfan y Degwm, yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2018 ac yno mae swyddfeydd Uned Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Mae 'Canolfan Y Degwm' sydd wedi'i lleoli yng nghanol y gymuned wedi galluogi man mwy hygyrch i ddarpar gleifion, gofawyr a'r cyhoedd 'alw heibio' i hyrwyddo'r 'cynnig actif' o wasanaeth cyfrwng Cymraeg ac i gefnogi cyfleoedd parhaus i ymgysylltu'n effeithlon. Hefyd, mae'r Ganolfan yn darparu cyfleuster hyfforddi penodol lle gall staff gael eu trochi yn yr iaith Gymraeg i wella eu hyder a'u sgiliau er mwyn gwella profiad cleifion ar draws bob un o'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'r gweithgareddau cymuned hyn a'r dulliau ymgysylltu'n parhau i adeiladu'r berthynas gref sydd gennym fel Bwrdd Iechyd gyda'n defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.

Hefyd, yn y Ganolfan, rydym wedi cynnig negeseuon iechyd allweddol i aelodau'r cyhoedd yn ystod Gŵyl Fwyd Y Fenni, Digwyddiadau Gwnaed yn Sir Fynwy ac achlysuron allweddol eraill ar draws y gymuned. Rydyn ni'n parhau i fod â pherthynas dda gyda grwpiau iaith Gymraeg ym mhob un o'n bwrdeistrefi ac, yn benodol, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r tair Menter Iaith.



Rydyn ni'n parhau i hyrwyddo 'cynnig actif' yr iaith Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle i drafod yr amrywiol hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael i staff ddysgu Cymraeg. Mae tystiolaeth o'r effaith positif y mae hyn wedi'i gael ar unigolion a'u teuluoedd. Rydyn ni wedi parhau gyda'n hymdrechion i ymgysylltu'n barhaus gyda'n cymuned o siaradwyr Cymraeg sydd wedi

sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn gallu dylanwadu ar ddatblygiad parhaus ein Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

Ym mis Medi 2018, penodwyd Swyddog Cefnogi'r Iaith Gymraeg a llwyddwyd i gynyddu ein cynnig o ystod o gyrsiau Cymraeg o Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i Gyrsiau Sylfaenol Anffurfiol i Ddechreuwyr a chysiau ar-lein gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ei rybudd Cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg ym mis Tachwedd 2018 ac, ers hynny, mae wedi bod yn gweithio tuag at barodrwydd cyfundrefnol a ffocws cynyddol. Mae'r Uned Iaith Gymraeg wedi bod yn hyrwyddo'r safonau newydd ar draws y sefydliad drwy gyrsiau hyfforddiant, sesiynau diwylliannol, sioeau teithiol, mynychu cyfarfodydd tîmau ac adrannau, cyfarfodydd un i un gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr, mynychu cynadleddau'r Bwrdd Iechyd a digwyddiadau yn y gymuned.

Rydym wedi cyflwyno cyrsiau iaith sylfaenol ar y cyd i'r cyhoedd a staff, datblygu a dosbarthu gwybodaeth a phosteri addysgol ynghyd â diwygio tudalennau Cymraeg ar Fewnwyd y staff gyda chanllawiau ac adnoddau ychwanegol.



Mae ein Huned Iaith Gymraeg wedi chwarae rhan bwysig yn y Ffeiriau Gyrfaedd a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd ac mewn ysgolion lleol i annog disgyblion i weld yr iaith Gymraeg fel sgil sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y Bwrdd Iechyd ac i annog pobl ifanc i'n hystyried fel darpar gyflogwr.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch bod ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol wedi bod yn hapus i ganu yn ystod achlysuron allweddol yn ein hysbytai amrywiol yn ystod y flwyddyn.



Roedd y croeso ar y wardiau wedi creu cymaint o argraff ar ddisgybl yn un o'n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol fel ei bod wedi creu a gwerthu cardiau Nadolig er mwyn iddi allu prynu anrhegion i ward y Plant adeg y Nadolig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn falch o dderbyn ymweliadau gan fyfyrwyr meddygol o Brifysgol Caerdydd ac Aelodau'r Cynulliad yn y Ganolfan Iaith Gymraeg a hefyd roedd yn falch o allu cynnal amrywiol Sioeau Teithiol i hybu'r Safonau Iaith newydd.



Gweithio i Wella

Yn unol â'r 'Egwyddorion Gwella' mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli cwynion o fewn rheoliadau o'r enw 'Gweithio i Wella',

Egwyddor waelodol Gweithio i Wella yw pan fynegir pryderon am driniaeth a gofal, naill ai drwy gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad clinigol, gall y rhai sy'n rhan o hyn ddisgwyl cael eu trin yn agored ac yn onest, derbyn ymchwiliad trwyadl a phriodol, cydnabyddiaeth brydlon ac ymateb yn egluro sut byddwn yn delio â hyn.

Pan fydd anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd, nod y Bwrdd Iechyd os bydd hynny'n bosibl, yw dychwelyd yr achwynwr i'r lle y bydden nhw wedi bod ynddo pe na bai'r gwasanaeth gwael neu'r camweinyddu wedi digwydd. I gefnogi hyn, sefydlwyd panel Iawndal. Hefyd, mae uwch aelodau staff yn cynnig cyfarfod â'r achwynwyr i roi eglurhad, ymddiheuriad ac egluro'r camau i wella os bydd hyn yn bosibl.

Mae'n bwysig datrys cŵyn cynted ag sy'n bosibl ac eleni rydym wedi gweithio'n galed i ddatrys mwy na **1,900** cŵyn. Llwyddwyd i ddatrys **56%** o'r rhain yn anffurfiol a **43%** yn ffurfiol. Y nod yw datrys pob cŵyn ffurfiol o fewn 30 diwrnod gwaith a chwynion anffurfiol o fewn 48 awr.

Yn dilyn adborth neu gŵyn, mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar achwynwr ac efallai'n fwy pwysig, bod camau'n cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth i atal cwynion pellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog diwylliant dysgu lle mae gwella nid yn dasg ychwanegol ond yn rhan o waith bob dydd.

Gwelir gwybodaeth bellach ar Gweithio i Wella yn ein **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (dogfen arwahân). Mae ar gael yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Diolch am Ddarparu Gofal Gwych

Mae'n bwysig nodi bod ein staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn derbyn cannoedd o negeseuon o werthfawrogiad bob blwyddyn.

Caiff rhai o'r rhain eu rhoi ar safle mewnwyd ein staff ac ar ein gwefan, sydd â wal benodol o ddiolchiadau er mwyn i aelodau'r cyhoedd rannu profiadau, teyrngedau a diolchiadau.

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon a dderbyniwyd yn 2018/19

Bu'n rhaid i'm tad fynd i D&A Nos Calan yn dilyn strôc. Roedd gofal, caredigrwydd a lefel proffesiynol yr holl staff yn ddilychwin. Yn benodol, diolch i'r Cofrestrydd Dr Azma a'r uwch nyrs yn yr Adran Adfywio, Donna.

Mae dad gartref erbyn hyn ar ôl treulio pum wythnos yn yr ysbyty.

Mae'n gwella'n araf ac rydym yn obeithiol i'r dyfodol diolch i'r staff gwych yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Karen Harris – Chwefror 2019

Diolch yn fawr iawn i bawb o'r Tîm Gofal yn y Cartref oedd yn gweithio mewn amodau tywydd eithafol yr wythnos ddiwethaf i sicrhau bod cleifion yn gallu cael y gofal angenrheidiol.

Gwaith tîm ac ymroddiad rhagorol gan bawb. Diolch yn fawr iawn!

Veronique Hughes, Donna Wetter a Claire Harris – Chwefror 2019

Ar 24 Hydref, cefais amnewid penglin gan dîm llawfeddygol Mr Baker/ Mr Ramadan yn Ysbyty Nevil Hall. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r tîm hwnnw a hefyd hoffwn ddiolch yn arbennig i'r staff nyrsio a gofal yn Ward 3/1 ynghyd â'r ffisiotherapyddion. Mae staff y ward yn gredyd i'r ysbyty ac roedden nhw'n dangos gofal proffesiynol a natur tosturiol tuag at y cleifion dan eu gofal. Gwelais sawl enghraifft o garedigrwydd personol tuag at gleifion eraill, llawer mwy nag oedd eu disgrifiadau swydd mae'n debyg yn sôn amdany'n nhw. Unwaith eto, diolch anferthol i bawb.

Mostyn Davies - Hydref 2018

Roedd yn rhaid i mi ddweud wrthyh i mi gael fy llawdriniaeth ar y llygad ac mae'n rhaid i mi ddweud nid yw ddim llai na gwyrth. Codais drannoeth ac edrych allan o fy nrws cefn ac roedd yr ardd yn WAW! Ffoniais y ward i ddweud wrthyn nhw ac i ddiolch iddyn nhw.

Roedden nhw'n wych ac roedd gan Mr Blythe ddigon o amser i sicrhau fod mod yn gyfforddus. Onid ydy'r GIG hwn yn wych! Pen Blwydd Hapus yn 70. Diolch Lisa am eich holl help.

G. Riddsdale – Gorffennaf 2018

A fyddech chi cystal â chyflwyno ein diolch a'n dymuniadau gorau i'r staff sydd wedi gofalu am ein tad yn ddiweddar.

Treuliodd chwe noson yn yr adran gofal dwys ac yna symudodd i D5 Gorllewin ar ôl cael haint ac annigonedd ar yr aren. Bu'r gofal yn anhygoel ac mae'r staff wedi trosglwyddo gwybodaeth i ni drwy gydol ei arhosiad. Mae'r gofal nyrsio yn gredyd i'r proffesiwn a byddaf yn canu eich clodydd i unrhyw un fydd yn gwrando. Gan i mi gael fy hyfforddi fel nyrs ers 1979, rydw i'n fwy na balch i weld y lefel uchel o ofal y mae Dad yn ei gael. Bu'r tîm Wroleg yn dda iawn ac yn barchus o ddymuniadau Dad.

Bu'r holl wasanaethau cefnogi yr ydym wedi bod mewn cysylltiad â nhw yn garedig, yn gwrtais ac yn dda yn eu gwaith. Mae'r bwyd yn cael ei gyflwyno'n dda, yn edrych ac yn aroglu'n dda iawn.

Gobeithio bod pobl Casnewydd yn gwerthfawrogi pa mor lwcus maen nhw. Diolch yn fawr iawn oddi wrth Huw, fy mrawd a'n teuluoedd.

Susan Logan – Hydref 2018

Bum yn mynychu Llanwenarth Suite yn Ysbyty Nevill Hall i gael profion wroleg. O'r dderbynfa i'r ystafell endosgopi, cefais fy nhrin gyda gofal a pharch.

Roeddwn wedi pryderu beth fydden nhw'n ei ddarganfod ond roedd pawb yn ymateb yn gefnogol ac yn gysurion. Eglurwyd i mi beth oedd y cam nesaf felly euthum adref yn gwybod y byddai pethau'n iawn.

Hoffwn i chi drosglwyddo fy ngwerthfawrogiad i bawb.

Derek Knibbs – Chwefror 2019

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn ystod 2018/19, atgyfnerthwyd eto ein gwaith i ymgysylltu â'r cymunedau ar draws Gwent. Buom yn bresennol mewn cymunedau ar draws Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i glywed am brofiadau, meddyliau a syniadau pobl am wasanaethau iechyd yn eu hardal.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei ymgysylltiad a'i gyfranogiad gyda phobl Gwent. Ers ei sefydlu yn ystod hydref 2015, nod y Tîm Ymgysylltu bob amser yw bod yn bresennol mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl (h.y. archfarchnadoedd, siopau un safle, a Chanolfannau Hamdden) i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd agwedd agored i geisio a chlywed barn y bobl leol.



Er bod Dyfodol Clinigol wedi cael ei drafod drwy amrywiol gyfleoedd ymgysylltu, mae pethau wedi cyflymu ers cyhoeddi Ysbyty Athrofaol y Grange.



Mae Tîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cefnogi rhannu gwybodaeth ac wedi derbyn newidiadau gwasanaethau eraill GIG yn yr ardal fel modelau newydd Gofal Sylfaenol a'r rhai ar y gorwel, creu hybiau gofal integredig a chyflwyno cynllun mân anhwylderau.

Mae'r dull wyneb yn wyneb yn galluogi sgysiau manwl a phrofi dealltwriaeth gan alluogi pobl i ofyn cwestiynau sy'n berthnasol iddyn nhw ac i'w teuluoedd.

Ymgysylltu â Staff

Yn 2018/19, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein hymgysylltiad gyda'n staff drwy nifer o ddulliau fel:

- Bwletin newyddion wythnosol i staff;
- Atgoffa rheolwyr ar bob lefel i rannu newyddion a diweddariadau gyda'u staff;
- Fforwm ar-lein i ofyn unrhyw gwestiwn i'n Prif Weithredwr;
- Cynnydd yn y mentrau cyfryngau cymdeithasol i ddathlu a diolch i'n staff (e.e. Mis Rhyngwladol Nyrsys);
- Sesiynau galw heibio misol er mwyn i staff gyfarfod ein Prif Weithredwr mewn amrywiol adeiladau'r Bwrdd Iechyd;
- Menter lle gallai timau wahodd Cyfarwyddwyr Gweithredol i weithio gyda nhw am ddiwrnod;
- Achlysuron briffio Uwch Arweinwyr;
- Achlysuron Rhaglen Dyfodol Clinigol i'r staff ac i 'Hyrwyddwyr Dyfodol Clinigol';
- Nifer o gynadleddau er mwyn i staff rannu eu gwaith, gynyddu dysgu a dathlu llwyddiannau;
- Achlysuron Cydnabod ein Staff a'n Gwirfoddolwyr; ac
- Mae Arolwg Staff GIG wedi ein galluogi i gasglu ystod o farn gan staff. Gallwn ddysgu o'r rhain a gweithredu arnyn nhw.



Mae ein Timau Cyfathrebu a Gweithlu wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd gyda'r staff, yn arbennig o safbwynt ein rhaglen Dyfodol Clinigol sy'n newid y modd y mae ein gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu.



Ymchwil a Datblygu (R&D) o fewn y Sefydliad

Eleni yn y Bwrdd Iechyd, mae ymchwil wedi parhau i ffynnu gyda mwy na 100 o astudiaethau agor a recriwtio (o gymharu ag 80 y llynedd) a mwy na 2,200 o gyfranogwyr wedi'u recriwtio (o gymharu â 1,300 y llynedd).

Yn nodweddiadol, bydd pob claf sy'n cael ei recriwtio i dreial yn arbed o leiaf un apwyntiad neu ymweliad ysbyty gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Hefyd, mae'n gyffredin o fewn ymchwil i driniaethau, ymchwiliadau,

meddyginiaethau a dyfeisiau gael eu darparu am ddim i'r Bwrdd Iechyd ac felly'n rhyddhau'r adnoddau

gwerthfawr hyn i gleifion eraill gael eu defnyddio. Mae pob Ardal yn actif o safbwynt ymchwil, pob grŵp oed yn cyfranogi mewn ymchwil (o fydwreigiaeth a newydd-anedig i blant, oedolion a phobl hŷn) ac



mae ymchwil yn digwydd mewn gofal eilaidd, Gofal Sylfaenol a Deintyddiaeth yn y Gymuned.

Mae'n bwysig cydnabod y cynnydd hwn yn y nifer a'r mathau o ymchwil sy'n digwydd o fewn y Bwrdd Iechyd oherwydd bod corff cynyddol o dystiolaeth bod ymchwil yn effeithio'n bositif ar ddiogelwch cleifion. Jonker a Fisher (2018) yw'r ymchwilwyr diweddaraf i ymchwilio i hyn. Roedden nhw'n cael hyd i gysylltiad cryf rhwng Ymddiriedolaethau GIG gyda lefelau uchel o weithgaredd ymchwil a chyfraddau is o farwoldeb.

O safbwynt arbenigeddau clinigol, mae'r mwyafrif yn cyfranogi mewn prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys Bydwreigiaeth, Gwasanaethau Plant, Llawfeddygaeth, Rheumatoleg, Dermatoleg, Rheoli Heintiau, Llesiant Staff, Nifer y Staff sy'n cael Brechiad y Ffliw, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Canser, Strôc, Gofal Lliniarol, Gofal Dwys ac Anaestheteg, Gofal Sylfaenol, Deintyddiaeth y Gymuned a gwella briwiau.

Er bod adran clefydau'n bwysig i ni, roedd Dementia, Iechyd Meddwl a Gofal Sylfaenol ymhlith y blaenoriaethau y llynedd. Bydd pob un o'r rhain yn alinio R&D i'r model dyfodol clinigol o gynnig gwasanaethau'n nes i gartrefi.

Nid oes dim o hyn yn digwydd ar ei ben ei hun ac mae'r Adran R&D yn darparu staff ymroddedig a chymwys sy'n trafod gydag Unedau Treialu ar draws y DU i sicrhau cyflwyno ymchwil o'r safon uchaf i mewn i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm bychan hwn hefyd yn rheoli cytundebau, dichonoldeb, prosesu caniatâd, nawdd ac yn goruchwyllo gweinyddu'r ymchwil. Mae'r



Adran Ymchwil a Datblygu'n cyflogi staff cyflenwi i sefydlu treialon, recriwtio cleifion, casglu data, mewnbynnu data a chau treialon. Mae hyn yn cynnwys ymgynghorwyr meddygol, nyrsys ymchwil, bydwagedd ymchwil a swyddogion ymchwil.

Fel Bwrdd Iechyd Prifysgol, rydyn ni'n parhau i gydweithio gyda'n partneriaid yn y Brifysgol i lunio a chyflawni prosiectau ymchwil newydd. Mae hyn yn gysylltiedig â chynnydd mewn incwm grant a enillwyd mewn cystadleuaeth, cyhoeddiadau a chyflwyniadau'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Wrth symud ymlaen, mae Ymchwil a Datblygu wedi'i alinio i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae ymchwil yn ganolog i ail-lunio gwasanaethau parhaus gyda Dyfodol Clinigol fel y thema ar gyfer cynhadledd R&D 2019. Mae hyn, yn nhermau gwerthuso systemau a phrosesau newydd i sicrhau eu bod wedi'i seilio ar yr

arfer ar sail y dystiolaeth orau a sicrhau bod lle o fewn bob gwasanaeth a fydd yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael mynediad i dreialon clinigol yn rheolaidd. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r ddogfen bolisi 'Cymru Iachach' yn gosod y thema



ar gyfer ymchwil hefyd. Deallwn a byddwn yn cymryd o ddifrif bwysigrwydd ymchwil i atal salwch, cael diagnosis cynnar a phwysigrwydd darparu gwerth am arian i gyflenwi gwasanaethau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol integredig sy'n gweithio'n agos gyda'I Lywodraeth Leol a'r Sector Annibynnol.

Mae canolfan Gwelliant Parhaus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Abaci) yn canolbwyntio ar gefnogi Gwella Ansawdd (QI), gyda'r nod eithaf o hyrwyddo safon uchel, gofal iechyd diogel a dibynadwy. Mae Abaci yn cyflawni hyn drwy:

- **Alluogi** - creu sgiliau gwella ac arwain ar draws y Bwrdd Iechyd i alluogi staff i greu newid ystyrlon.
- **Arloesi** - dylunio a phrofi dulliau newydd i ddelio â rhai o'r heriau mawr rydyn ni'n eu hwynebu o fewn gofal iechyd.
- **Gyflenwi** – cynnal rhaglenni gwella ar raddfa fawr a gweithio gyda staff i wella gwsanaethau i gleifion.

Mae'r rhain yn helpu i atgyfnerthu a chreu rhwydweithiau o fewn a thu allan i'r sefydliad.

Gallu i adeiladu

Mae Abaci wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gwella safonol a gwneir hyn drwy ystod o raglenni hyfforddi.

- *Mae'r Rhaglen Well ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli yn dysgu uwch sgiliau rheoli er mwyn arwain yn fwy effeithlon.* Cynhelir y rhaglen hon mewn partneriaeth gyda thîm Datblygu Cyfundrefnol (OD) y Bwrdd Iechyd.




- Mae rhaglenni Arweiniol gwella Hyfforddi a Mesur yn addysgu sgiliau QI i staff llinell flaen. Y sgiliau a ddysgir yw canfod y broblem, sut i fesur gwelliant a sut i'w gynnal.

- Mae'r Academi Uwch Fodelu, ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i trydydd criw o fyfyrwyr, yn helpu staff i ddatblygu eu sgiliau wrth ddadansoddi data, adeiladu modelau gwasanaeth ac ymchwilio i senarios 'Beth os?' er mwyn hysbysu a gwella gwasanaethau. Mae ein Modelwyr Mathemategol hefyd yn darparu cyrsiau ar 'Sgiliau Excel Canolradd', 'Pa graff, pryd?' ac 'Ystadegau o fewn Gofal Iechyd'.

Gyrru arloesi

Y llynedd, mae ein tîm modelu (mewn partneriaeth gydag Ysgol Fathemateg Prifysgol Caerdydd a'r Gwasanaeth Rheoli Pwysau Oedolion) wedi llunio app cymhellol i leihau'r risg o ddiabetes cysylltiedig â gorbwysau.



Rydyn ni'n parhau i ddilyn arloesi'n actif ar draws pob maes o'r sefydliad.

Cyflawni newid cynaliadwy

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Abaci wedi parhau i gynnal tair rhaglen gydweithredol ar raddfa fawr mewn partneriaeth gyda rhanbarthau a chyfarwyddiaethau'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwella safon gofal a gwasanaethau.



(Llun: staff yn cymryd rhan mewn sesiwn dysgu gydweithredol)

- Mae'r Grŵp Cydweithio ar Ofal heb ei Drefnu wedi bod yn delio â'r angen am sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mor gyflym ac mor ddiogel ag sy'n bosibl.
- Drwy weithio gyda'r gyfarwyddiaeth nyrsio, mae'r Grŵp Cydweithio ar Liniaru'r Pwysau wedi bod yn gweithio i ddileu Briwiau Pwysau a geir mewn Ysbytai (HAPUs). Yn ystod y 17 mis hyd at Chwefror 2019, mae'r grŵp wedi cael canlyniadau nodedig gan osgoi brasamcan o 153

HAPUs, gan gynnwys 11 HAPUs sylweddol. Brasamcanwn fod hyn yn cyfateb i ostyngiad o 765-diwrnod yn y galw am welyau ysbytai a thua arbedion costau o £793,000.

- Roedd y *Grŵp Cydweithio Trawsnewid Cleifion Allanol* yn dwyn ynghyd ddeg tîm, gan gynnwys rheumatoleg, diabetes, poen cronig a llawfeddygaeth gyffredinol, i ddysgu, rhannu a chyflwyno arfer gorau. Mae'r newidiadau llwyddiannus hyd yn hyn yn cynnwys cyflwyno nifer o fodelau newydd gan gynnwys llwybrau 'Gweld o Symptom', dilyniant dros y ffôn, rhith glinigau a chlinigau 'poeth'.

Ennill Gwobr

Yn ddiweddar, mae Academi Uwch Fodelu Abaci wedi cael ei ddewis gan y Sefydliad Iechyd i fod yn rhan o'i raglen Datblygu Dadansoddeg Gymhwysol.



Nod y prosiect yw deall ac arddangos dulliau i oresgyn rhwystrau, i fabwysiadu technegau modelu a dadansoddi mewn gofal iechyd. Hefyd, bydd yn datblygu a gwerthuso effaith rhaglen hyfforddi fewnol ar gyfer staff llinell flaen mewn dadansoddi data a thechnegau modelu mathemategol.

Mae'r gwerthuso'n cael ei gefnogi gan Goleg Datblygu Dadansoddeg Gymhwysol, Prifysgol Abertawe.

Roedd y tîm modelu hefyd yn falch o gael bod ar y rhestr fer eleni ar gyfer y wobwr Tîm y Flwyddyn Cymdeithas Dadansoddwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am waith yr Abaci, gallwch ymweld â thudalennau'r we ar wefan y Bwrdd Iechyd yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/69347>

Neu ein dilyn ar Twitter @ABCiAB

Cynladwyedd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd ei gyfrifoldeb o ddifrif i fod yn gyflogwr cynladwy'n amgylcheddol ac mae'n ceisio lleihau'r effaith amgylcheddol ar ei weithgareddau drwy reoli a lleihau'n rhagweithiol y defnydd o ynni a'r llif o amrywiol wastraff. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o wybodaeth allweddol ynni, gollyngiadau, gwastraff ac ailgylchu gan gymharu yn erbyn blynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad a baratowyd yn cydymffurfio â gofynion y sector cyhoeddus fel yr amlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), gydag atodiad gan Ganllawiau HMT (Pennod 3 Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru).

Strwythur Llywodraethu

Mae gan y Bwrdd Fwrdd Rhaglen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys agenda eang - Egni, Gwastraff, Dŵr a Chynladwyedd. Mae'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhannu'r Gadeiryddiaeth. Cylch gwaith y grŵp yw datblygu agenda cynladwyedd y sefydliad.

Mae materion iechyd y cyhoedd amgylcheddol yn cael eu trin mewn cysylltiad â Iechyd Amgylcheddol Iechyd y Cyhoedd Cymru ac Asiantaeth Diogelu Iechyd Lloegr. Cyflwynir adroddiadau am ddigwyddiadau iechyd y cyhoedd amgylcheddol i'r Partneriaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Llesiant.

Proffil yr Ystâd

Defnyddio data a gasglwyd o EFPMS 17/18 i Lywodraeth Cymru a'i addasu ar gyfer unrhyw newidiadau yn yr ystâd yn 18/19. Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys tir o 136.77 hectar gydag adeiladau'n cymryd maint llawr gros o 309,679 M2 ac mae'n cynnwys:

- 2 Ysbytai aciwt cyffredinol
- 3 Ysbytai aml-wasanaeth
- 4 Ysbytai an-aciwt tymor byr
- 2 Ysbytai arhosiad hir
- 1 Ysbyty arbenigol
- 3 Ysbytai cymuned
- 45 Cyfleusterau cleifion eraill
- 8 Cyfleusterau cefnogi eraill

Uchafbwyntiau perfformiad

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at darged heriol ar gyfer lleihau carbon o 3% blwyddyn ar ôl blwyddyn fydd yn parhau i adeiladu ar lwyddiannau blaenorol lleihau gollyngiadau.

I barhau i gyflawni lleihad carbon, bydd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar ddod â strategaeth ynni i ben i ganfod arbedion pellach posibl. Bydd y strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol, y gyrwyr a'r cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn archwilio sut gellid rheoli carbon o fewn y sefydliad yn fwy effeithlon gydag arfer gorau, technoleg ac arloesi.

Mae'r pum system ffotovoltaig solar yn parhau i ddarparu trydan gwych i adeiladau allweddol; eleni, mae'r paneli solar wedi arbed 58,081Kg o garbon deuocsid (cyfateb i 58 tunnell fetrig). Mae hwn hefyd yn cyfateb i arbediad trydan i'r hyn a ddefnyddir gan 50 cartref arferol yn y DU bob blwyddyn.

Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr

Rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da wrth leihau ein gollyngiadau CO₂. Yn 2018/19, roedd y Bwrdd Iechyd yn gollwng 23,035 tunnell fetrig o CO₂ o'r ynni a ddefnyddiwyd i wresogi a rhoi pŵer i'r ystad.

Mae hwn yn cynrychioli gostyngiad o 14.1% ar y flwyddyn flaenorol. Dylid nodi, yn unol â'r canllawiau, bod y gollyngiadau CO₂ wedi'u cyfrif dros y cyfnod gyda'r ffactorau trawsnewid diweddaraf a gyhoeddwyd gan DEFRA.

Eleni, rydyn ni wedi llwyddo i leihau'r defnydd o drydan o 4.4% ac wedi gweld lleihad yn y defnydd o nwy. Mae hyn oherwydd y gwelliannau a wnaed i systemau rheoli adeiladau, buddsoddiad mewn cyfarpar mwy effeithiol ac yn rhannol y tywydd hafaidd hir yn 2018.



Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr		2016-17	2017-18	2018-19
An-Ariannol	Cyfanswm Gollyngiadau gros	28.268	26.826	23.045
	Cyfanswm Gollyngiadau net	amh	amh	amh
Dangosyddion (1000tCO ₂)	Gollyngiadau Gros Sgôp 1 (Uniongyrchol)	14.714	15.493	14.384
	Gollyngiadau Gros Sgôp 2 & 3 (Anuniongyrchol)	13.554	11.333	8.661
Treuliad Ynni Perthynol (miliwn KWh)	Trydan: An-adnewyddadwy	30.349	29.710	28.414
	Trydan: Adnewyddadwy		0.155	0.188
	Nwy	80.124	84.289	78.306
	LPG			0.025
	Arall	1.961	1.280	0.714
Ariannol (£miliwn)	Gwariant ar Ynni	5.807	6.067	6.373
	Gwariant Trwydded CRC (2010 ymlaen)	0.508	0.500	0.360
	Gwariant ar 'deithio busnes swyddogol '	amh	amh	amh

Yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, bydd prosesau'n cael eu hymchwilio er mwyn gallu adrodd yn gywir am "gwariant ar deithio busnes swyddogol" sy'n cael eu hepgor o'r adran hon o'r adroddiad blynyddol ar hyn o bryd.

Defnydd o Adnoddau

Fel y gellir gweld yn y tabl isod, mae treuliad dŵr ar draws yr ystâd wedi gostwng yn 2018/19. Mae hyn oherwydd llai o enghreifftiau o ollwng yn ystod y flwyddyn a hefyd y Bwrdd Iechyd oedd y sefydliad GIG cyntaf yng Nghymru i arwyddo i'r Rhaglen Aquafund- partneriaeth effeithlonrwydd dŵr 5 mlynedd gydag ADSM Cyf i sicrhau arbedion dŵr a lleihau gwastraff. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gostwng ei dreuliad dŵr ar draws yr ystâd o 2.6%.

Mae treuliad dŵr yn cael ei fonitro'n fanwl gyda chyfarpar monitro wedi'i osod ym mron pob adeilad y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn ein galluogi i weld proffil treuliad anghyffredin a gweithredu ar unwaith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i werthuso cyfleoedd arbed dŵr ac yn gweithredu technoleg newydd a rheoliadau system dŵr i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ddŵr ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r lefel o fesur o fewn yr ystâd yn golygu bod treuliad dŵr yn cael ei gofnodi ar lefel safle ac ni ellir ei wahaniaethau rhwng ystâd swyddfa/ di-swyddfa. Gwelwyd gwelliant yn y modd y mae casglu data wedi digwydd drwy'r Rhaglen Aquafund, a'r

mesuryddion clyfar ychwanegol sydd wedi'u gosod ar draws y mwyafrif o bortffolio'r ystâd.

Treuliad Adnoddau Terfynol			2016-17	2017-18	2018-19
Dangosyddion An- Ariannol (000m3)	Dŵr Treuliad (Ystâd Swyddfeydd)	Cyflenwyd	392	422	411
		Alldynnwyd	amh	amh	amh
		Fesul FTW	amh	amh	amh
	Dŵr Treuliad (Ystâd di-swyddfa)	Cyflenwyd	amh	amh	amh
		Alldynnwyd	amh	amh	amh
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)		1.075	1.198	1.189
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystad di-swyddfa)		amh	amh	amh

Wrth adrodd am ollyngiadau nwy tŷ gwydr a threuliad dŵr, bu nifer isel iawn o achosion lle brasamcanwyd treuliad. Mae'r rhain yn bod pan nad oedd darlleniad mesurydd wedi'i dderbyn ar gyfer adeilad am fis arbennig. Cyfrifir brasamcan ar dreuliad y mis blaenorol neu dreuliad am yr un mis y flwyddyn flaenorol.

Rheoli Gwastraff Cynladwy

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrechu i wella perfformiad amgylcheddol ac mae'n parhau i weithio tuag at weithredu sero tuag at ddull tirlenwi gyda 82% o wastraff cyffredinol (bagiau du) yn cael eu hanfon i ganolfan ynni o wastraff. Mae hyn yn osgoi eu danfon i dirlenwi ac mae'n darparu ffynhonnell carbon is o ynni wrth i'r byd ymddangos fel petai'n symud i ffwrdd o greu ynni o danwydd ffosil. Hefyd, mae cardfwrdd yn cael ei wahanu a'i becynnu yn Ysbyty Gwynllyw, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr.

Mae gwahanu Gwastraff Heintus yn cael ei werthuso'n gyson ac, os yn bosibl, yn unol â chanllawiau ac arfer gorau, mae eitemau'n cael eu tynnu oddi yno a'u hanfon i opsiwn gwaredu rhatach.

Rydyn ni'n parhau i fod yr unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru ac yn un o ddau yn unig yn y byd, sy'n prosesu amplap hambyrddau llawfeddygol polypropylen (mewn peiriant Sterimelt). Rydyn ni hefyd yn ehangu'r gwaith i gynnwys eitemau eraill o Theatrau fel capiau llawfeddygon.

Mae WarpIt, y system ail-ddefnyddio eitemau ar-lein wedi'i dreiglo ar draws y Bwrdd Iechyd i gyd gan ganiatau i staff gyfnewid eitemau nad sydd bellach eu hangen fel dodrefn, cyfarpar swyddfa, papur swyddfa a phethau meddygol treuliadwy.

Mae 2019/20 yn addo i fod yn flwyddyn gyffrous ar gyfer rheoli amgylcheddol gyda phrosiectau ar waith i ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ailgylchu. Yn barod yn nhai bwyta'r Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n symud i ffwrdd oddi wrth eitemau plastig un defnydd i opsiynau gwell i'r amgylchedd, cwpanau papur, platiau/ cynwysyddion tecawe cansen siwgr a chyllyll a ffyr bioplastig. Brasamcanwn y bydd hyn yn osgoi defnydd o 19 tonnall fetrig o blastig yn ein safleoedd.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r perfformiad gwastraff dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2018/19 cymerodd cwmni newydd ein cytundeb gwastraff cyffredinol oedd yn golygu newid mewn dulliau a llwybrau gwaredu, felly mae "Llosgi ac adfer ynni" yn awr yn cael eu cynnwys ac mae cyfansymiau tirlenwi/ ailgylchu wedi gostwng.

Roedd cyfansymiau ailgylchu hefyd yn gostwng oherwydd i'r crynodiaduron yn Ysbyty Gwynllyw ac Ysbyty Nevill Hall fethu. Newidiwyd y rhain erbyn hyn drwy gronfeydd cyfalaf felly bydd cyfraddau ailgylchu'n cynyddu yn 2019/20.

Gwastraff		2016-17	2017-18	2018-19
Dangosyddion An- Ariannol (tunelli metrig)	Cyfanswm Gwastraff	3055	3212	2910
	Tirlenwi	1418	1681*	495*
	Ail-ddefnydd/Ailgylchu	801	680	320
	Compost	0	0	0
	Llosgi gan adfer ynni	amh	amh	1274
	Llosgi heb adfer ynni	836	850	822
Dangosyddion Ariannol (£ 000)	Cyfanswm Cost Gwaredu	845	700	681
	Tirlenwi	333	362	95
	Ail-ddefnydd/Ailgylchu	64	35	24
	Compost	0	0	0
	Llosgi gan adfer ynni	amh	amh	249
	Llosgi heb adfer ynni	448	303	313

**O fewn y data gwastraff, mae brasamcan o safbwynt casgliadau biniau olwyn o Ganolfannau Iechyd a Chlinigau. Mae hyn yn cyfateb i 1.5% o gyfanswm y tunelli metrig tirlenwi yn unig.*

Rheoli Amgylcheddol - ISO 14001

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ardystiedig trydydd parti i'r safon rhyngwladol ISO 14001.

Mae'r EMS wedi datblygu i fod yn bwynt ffocws ar gyfer datblygu gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n cynnig dull unol i reoli mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaladwy a mentrau teithio gwyrdd.



Mae ardystio'n sicrhau nad ydyn ni'n unig yn cydymffurfio â deddfwriaeth ond yn mynd y tu hwnt i hyn drwy weithredu arfer gorau yn ein rôl fel patrwm o sefydliad GIG ym maes gwastraff gofal iechyd a rheoli amgylcheddol.

Mae'r sefydliad yn rhoi pwysigrwydd mawr ar ardystio parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd a'n Rhanddeiliaid.

Teithio Cynladwy

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd annog teithio cynladwy i leihau gollyngiadau carbon, gwella ansawdd yr aer a lleihau problemau tagfeydd/ parcio ar safleoedd y Bwrdd Iechyd tra'n gwella iechyd a lles y staff. Er mwyn hybu teithio cynladwy a lleihau siwrneiau ceir un person, lluniwyd Strategaeth Teithio Cynladwy. Ategir hyn gan gynllun teithio cynladwy penodol i safle ar gyfer Ysbyty Athrofaol y Grange.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA)

Lluniwyd y WBFGA i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylchedd a diwylliannol Cymru a gostwng anghyfartaleddau mewn cymdeithas. Tanategir hyn gan 7 gôl Lles y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithio tuag ato.

Mae pob cyfarwyddiaeth wedi ymrwymo i amcan i helpu'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r saith gôl hyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Pam mae'r WBGFA yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd?

Mae'n helpu i wella'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau.

Yn 2015, pasiwyd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ddeddf. Bydd y ddeddfwriaeth arloesol hon yn golygu y bydd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd wrth wneud penderfyniadau (bach neu fawr) ystyried yr effaith y gallai ei gael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Ngwent, yn awr a hefyd yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn cyflenwi ei wasanaethau yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynladwy sy'n golygu y bydd yn rhaid iddo:

- Ystyried y tymor hir fel nad yw penderfyniadau'n effeithio'n negyddol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion eu hunain;
- Gymryd agwedd integredig fel ei fod yn ystyried pob un o'r goliau llesiant wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd;
- Gynnwys amrywiaeth lawn ei boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n eu haffeithio;
- Gydweithio gydag eraill er mwyn cael hyd i atebion cynladwy cyfrannol; a
- Deall pam mae pethau'n digwydd a defnyddio'r wybodaeth hon i atal pethau rhag digwydd eto neu rhag gwaethygu.

I gael mwy o fanylion am yr hyn sy'n cael ei gynnwys o fewn y Ddeddf, gallwch weld crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf – [WBFGA - The Essentials](#).

Mae'r Ddeddf wedi mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau pwysicaf. I helpu'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau pwysicaf, mae wedi gosod deg amcan Llesiant.



Bydd yr amcanion hyn hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i arddangos sut mae'n cyfrannu'n benodol at bob un o'r saith Gôl Llesiant Cenedlaethol Cymru oedd wedi'u cynnwys o fewn y Ddeddf.

Ym mis Rhagfyr 2018, roedden ni'n cwblhau ymarfer hunan-adlewyrchu ar gyfer y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol oedd yn ein galluogi i fapio ein cynnydd yn erbyn pum lefel aeddfedrwydd (Gwiriwr Siwrne) ar gyfer pob un o'n **10 Amcan Llesiant**. Gweler y tabl isod i weld ein cynnydd:

<i>Amcanion ein Llesiant</i>	<i>Dechrau Arni</i>	<i>Gwneud Newidiadau Syml</i>	<i>Bod yn fwy anturus</i>	<i>Berchen ein Huchelgais</i>	<i>Arwain y Ffordd</i>
1-Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi cymorth i bob plentyn yng Ngwent i gael y dechrau gorau mewn bywyd			le		
2-Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach ac i heneiddio'n dda er mwyn gallu cynnal eu hannibyniaeth a mwynhau bywyd o'r safon uchaf i fod yn hen		le			
3-Hyrrwyddo llesiant meddwl fel sylfaen ar gyfer iechyd, creu gwytnwch personol a chwmunedol			le		
4-Annog pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi i gyfranogi mewn penderfyniadau ar y cyd am eu cynlluniau iechyd a gofal ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaethau ehangach er mwyn i ni, gyda'n partneriaid, gyflenwi deilliannau sy'n bwysig i'r mwyafrif o bobl		le			
5-Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o ddefnydd effeithlon o adnoddau GIG i gyflawni deilliannau wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau a chleifion drwy systemau cyfathrebu, monitro ac olrhain rhagorol ym mhob maes clinigol				le	
6-Hyrrwyddo gweithlu amrywiol sy'n gallu mynegi eu hetifeddiaeth ddiwylliannol gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle		le			
7-Datblygu ein staff i fod y gorau y gallan nhw fod gyda lefelau uchel o lesiant cyflogai ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hybu gyrfaoedd GIG a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith.			le		
8-Gostwng ein heffaith amgylcheddol negyddol drwy raglen adeiladu cyfalaf cyfrifol ac agwedd cynaliadwy at ddarparu gwasanaethau adeiladu i gynnwys: rheoli carbon a gwastraff, cynnal caffael ar sail cost cylch gwaith cyfan a chefnogi ffynonellau lleol, hybu teithio cynaliadwy ac actif ac awgrymu gwelliannau mewn iechyd amgylcheddol.		le			
9-Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch o atal i driniaeth, adsefydlu ac adfer sy'n cyflawni gofynion presennol a dyfodol a delio ag anghyfartaleddau iechyd a lefelau gwahanol o ofynion ar draws ein cymunedau.				le	
10-Parhau i integreiddio ein gweithgareddau gyda phartneriaid cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol ehangach gyda'r nod o ddatblygu system gyflawn liflin ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi.				le	

I barhau â'i gynnydd da wrth gyflenwi gobeithion y Ddeddf, beth yw cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol?

Fel mae'r tabl uchod yn dangos, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da yn erbyn Amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd ac mae nifer o enghreifftiau o gamau/ weithgareddau a gynhaliwyd ar draws y Rhanbarthau a swyddogaethau galluogi sy'n dangos hyn yn glir.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau ar ei siwrne i gynnwys y Ddeddf yn llwyr yn

yr hyn y mae'n ei wneud. Mae adroddiadau cenedlaethol ar gynnydd y Ddeddf WBFG o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlygu'r cyfleoedd a'r heriau i gyflawni lefel o newid trawsnewidiol a ddisgwylir gan y Ddeddf ac yn arbennig bod gwneud pethau'n wahanol yn anodd ac yn cymryd amser. Tra bod y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu agwedd rhagweithiol i gynnwys egwyddorion y Deddf i mewn i sut mae'n cynllunio, dylunio a chyflenwi ei wasanaethau, mae'n cydnabod bod llawer iawn eto i'w wneud.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlodd y WBFGA Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob un o'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi canfod, cytuno ar ac wedi mabwysiadu cyfres o amcanion llesiant ac wedi datblygu cynllun llesiant mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae cynlluniau llesiant y PSBs hyn yn canolbwyntio ar gyflawni dyletswydd i wella llesiant Economaidd, Amgylcheddol, Cymdeithasol a Diwylliannol ar draws pob un o ardaloedd y pump PSB. Mae'r dull cydweithiol hwn o gyflawni blaenoriaethau Gofal Iechyd ar draws Gwent hefyd yn floc adeiladu allweddol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a sefydlwyd o fewn darn arall o ddeddfwriaeth sef y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r Ddeddf i gyflawni gofal iechyd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a dyfodol sy'n byw yng Ngwent?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i staff i'w helpu i ddeall y newidiadau positif y gellir eu gwneud drwy gymhwyso'r Ddeddf i'r hyn y maen nhw'n ei wneud.

I gefnogi cynnwys y Ddeddf WBFG, mae'r Bwrdd Iechyd yn:

- Gweithredu cynnydd hunan-asesu ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n gofyn i bob rhanbarth a swyddogaeth am eu huchelgeisiau tymor hir;
- Cynnwys egwyddorion y Ddeddf i hyfforddiant craidd a datblygiad staff;
- Defnyddio egwyddorion y Ddeddf i lunio gwasanaethau newydd fel gwasanaeth rheoli Pwysau Connect ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Llunio ei benderfyniadau buddsoddi ariannol drwy ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn parhau'n flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd a, thros y 18 mis nesaf, mae nifer o gamau i'w alluogi ymhellach i barhau i gyflenwi yn erbyn gobeithion y Ddeddf gan gynnwys y pum dull gwaith ar draws ei swyddogaethau a dangos cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant.

Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau, fel sefydliad, i ddatblygu ein gwelliannau a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i gynnal ein busnes yn agored ac yn darparu gwybodaeth am ein perfformiad yn gyhoeddus.

Bydd gwybodaeth am ein gwasanaethau'n parhau i gael ei chyhoeddi i sicrhau ein pobl a'n rhanddalwyr bod ein gwasanaethau'n effeithiol, effeithlon, priodol ac wedi'u cynllunio i gyflawni eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Dolenni Defnyddiol

Gobeithiwn i chi gael yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Drwy gydol yr adroddiad, rydym wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau eraill sy'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl am y flwyddyn 2018/19, gan gynnwys:

- **Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018/19**
- **Adroddiad Atebolrwydd, Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol 2018/19**

Gellir gweld yr adroddiadau hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Cysylltwch â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Y Pencadlys
Ysbyty Sant Cadog
Ffordd y Lodge
Caerllion
Casnewydd
NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk